



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynradd

**Agweddau cymdeithasol ac
emosiynol ar ddysgu – Cymru**

Canllawiau



**Penaethiaid, athrawon
ac ymarferwyr mewn
lleoliadau Cyfnod Sylfaen
a ariennir, ysgolion
cynradd, ysgolion
arbennig, a staff
awdurdodau lleol a
Gwasanaethau Plant**

Dyddiad cyhoeddi: 09-2010

Cyf: 1378-2010-CYMRU

Ymwadiad

Dymuna'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ddatgan yn glir nad yw'r Adran a'i hasiantiaid yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am union gynnwys unrhyw ddeunyddiau a gaiff eu hawgrymu'n ffynonellau gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn, boed y deunyddiau hynny ar ffurf cyhoeddiadau print neu ar wefan.

Yn y deunyddiau hyn caiff eiconau, logos, meddalwedd a gwefannau eu defnyddio am resymau cyd-destunol ac ymarferol. Nid yw'r ffaith eu bod nhw'n cael eu defnyddio'n golygu bod cwmnïau penodol na'u cynnyrch yn cael eu cymeradwyo.

Roedd y gwefannau y cyfeirir atynt yn y deunyddiau hyn yn bodoli pan gafodd y deunyddiau eu cyhoeddi. Dylech wirio pob cyfeiriad at wefan yn ofalus er mwyn gweld a ydynt wedi newid, a dylech eu cyfnewid am gyfeiriadau eraill lle bo hynny'n briodol.

Rhagair

Mae'r deunyddiau *Cynradd: Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu – Cymru* (ACEDd Cymru) wedi'u seilio ar y deunyddiau gwreiddiol a luniwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau. Mae'r deunyddiau ACEDd Cymru hyn wedi'u haddasu a'u cyfieithu i'w defnyddio yng Nghymru.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ceisio cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion wrth iddyn nhw hyrwyddo cynnydd a chyflawniad pob dysgwr. Mae'r addysg gynhwysol hon yn broses barhaus sy'n ymwneud â sicrhau cyfle addysgol cyfartal drwy ystyried a rhoi sylw i'r amrywiaeth sy'n bresennol mewn ysgolion.

Yn sail i'r deunyddiau mae'r cyhoeddiad *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion: Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif 47/2006* (ar gael yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau yn yr adran 'Cyhoeddiadau' o dan 'Cylchlythrau').

Un o ddibenion allweddol y canllawiau hyn yw gweithredu fel fframwaith ar gyfer cynhwysiant gan geisio bodloni anghenion pob dysgwr o fewn ymagwedd ysgol gyfan gynhwysol.

Bydd gofyn i athrawon addasu'r deunyddiau ymhellach ar gyfer disgyblion unigol. Rhoddwyd rhai enghreifftiau ar gyfer gwneud hyn. Enghreifftiau yn unig yw'r rhain – proffesiynoldeb gwybodus ymarferwyr/athrawon, gan gydweithio â staff cymorth, rhieni/warcheidwaid a'r disgybl, fydd yn pennu'r dewis arbennig o amcanion dysgu, arddulliau dysgu a strategaethau mynediad.

Mae'r deunyddiau ACEDd Cymru hefyd wedi'u seilio ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (ar gael yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau yn yr adran 'Newyddion'). Dyma sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu codi cyflawniad disgyblion yn gyffredinol, lleihau'r amrywiaeth mewn cyflawniad o fewn a rhwng gwahanol grwpiau o ddisgyblion, ysgolion ac awdurdodau lleol, a lleihau'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Mae ACEDd Cymru yn cyd-fynd â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion drwy alluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu eu potensial llawn wrth iddyn nhw gaffael y sgiliau, yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r agweddau i fod yn ddinasyddion sy'n weithgar yn gymdeithasol ac yn bersonol ac yn ddysgwyr gydol oes.

Roedd gweithredu ACEDd Cymru yn yr ysgolion hefyd yn un o brif argymhellion yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wella ymddygiad a phresenoldeb mewn ysgolion (ar gael yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau yn yr adran 'Cyhoeddiadau' o dan 'Arweiniad a Gwybodaeth').

Cynnwys

Rhagair

Cyflwyniad	5
Beth yw'r adnoddau hyn ac ar gyfer pwy mae'r adnoddau?	5
Beth yw'r agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu (SEAL) a pham dylen ni ganolbwyntio arnyn nhw?	6
Beth yw sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol?	7
Sut mae hyn yn cysylltu â'r hyn rydyn ni eisoes yn ei wneud?	10
Beth mae'r adnoddau yn ei gynnig i'r lleoliad/ysgol?	12
Sut mae'r adnoddau'n berthnasol i blant sy'n cael anawsterau yn y maes hwn?	13
Sut mae'r adnoddau wedi'u trefnu?	14
Defnyddio deunyddiau gwasanaeth/amser cylch y Cyfnod Sylfaen	15
Sut mae cysylltiadau'n cael eu gwneud â'r cwricwlwm ac agweddau eraill ar fywyd y lleoliad/ysgol?	16
Trosolwg o'r themâu a strwythur yr adnoddau	18
Pwysigrwydd gwneud adnoddau ACEDd Cymru yn rhan o ymagwedd y lleoliad/ysgol gyfan	19
Cynllunio'r cwricwlwm: materion i'w hystyried	21
Datblygiad proffesiynol staff	22
Casglu adnoddau	24
Dechrau arni	24
Cynnwys rhieni	24
Cynnwys plant	26
Addysgu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol	27
Dulliau dysgu ac addysgu	27
Strwythur y sesiynau addysgu	28
Defnyddio'r deunyddiau yn y Cyfnod Sylfaen	32
Diwylliant, crefydd, rhyw a gwahaniaethau unigol eraill	33
Sicrhau cynhwysiant	35
Asesu cynnydd disgyblion	36
Monitro a gwerthuso effaith	36
Cyffredinol i'r hyn a ddysgir	37
Defnyddio'r deunyddiau yn yr ystafell ddosbarth	38
Atodiad 1: Egwyddorion a nodweddion rhaglenni ACEDd effeithiol	44
Atodiad 2: Addysgu materion sensitif	45
Atodiad 3: Monitro a gwerthuso effaith	64

Cyflwyniad

Beth yw'r adnoddau hyn ac ar gyfer pwy mae'r adnoddau?

Mae'n cynnwys:

- llyfryn canllawiau
- pecyn o adnoddau i gyflwyno saith thema ysgol gyfan, bob un yn cynnwys gwasanaeth i lansio'r thema a syniadau a deunyddiau addysgu ar gyfer gwneud gwaith dilynol yn y dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2
- pecyn ychwanegol o adnoddau gwahaniaethol ar gyfer gwaith gyda grwpiau bach o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol arnyn nhw i helpu i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol
- pecyn o weithgareddau a thaflenni gwybodaeth ar ddatblygiad staff i gyd-fynd â phob thema
- pecyn o weithgareddau y gall teuluoedd eu defnyddio gartref i gyd-fynd â phob thema
- Ffeil adnoddau ysgol gyfan (posteri, ffotograffau, adnoddau y gellir eu llungopio a chyflwyniadau PowerPoint).

Mae'r adnoddau yn ceisio cynnig fframwaith penodol, strwythuredig ar gyfer y cwricwlwm cyfan i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol plant. Mae ymagwedd o'r fath yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddarpariaeth y lleoliad/ysgol gyfan ar gyfer datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.



Bwriedir i'r adnoddau gael eu defnyddio yn y gymuned ysgol gyfan. Y pennaeth, ynghyd â'r cydlynnydd addysg personol a chymdeithasol (ABCh) neu'r cydlynnydd ysgolion iach, neu uwch-arweinydd ymddygiad yr ysgol, fydd yn debygol o gydlynw'r defnydd o'r adnoddau. Fe'u cyflwynir yn bennaf gan ymarferwyr/athrawon drwy gydol y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Ym mhob lleoliad/ysgol, rhaid i bob oedolyn sy'n cael cysylltiad â phlant – ymarferwyr/athrawon, staff amser cinio a staff cymorth – fod yn ymwybodol o'r eirfa a ddefnyddir a'r syniadau allweddol, er enghraifft, ar gyfer datrys problemau, a gyflwynir i'r plant.

Beth yw'r agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu (ACEDd) a pham dylen ni ganolbwyntio arnyn nhw?

Defnyddir termau amrywiol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol i ddisgrifio agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu, gan gynnwys datblygiad personol a chymdeithasol; llythrennedd emosiynol; deallusrwydd emosiynol; cymhwysedd cymdeithasol ac emosiynol; a sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Gall fod yn ddefnyddiol i ystyried pum prif agwedd gymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu:

-  hunanymwybyddiaeth
-  rheoli teimladau
-  cymhelliant
-  empathi
-  sgiliau cymdeithasol.

Bydd yr agweddau hyn yn rhannu'n ddau gategori yn aml – y personol (er enghraifft, hunanymwybyddiaeth) a'r rhyngpersonol (er enghraifft, sgiliau cymdeithasol).



Beth yw sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol?

O fewn pob un o'r agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu mae nifer o **sgiliau** unigol. Er enghraifft, sgîl cynnar o fewn yr agwedd 'empathi' fyddai gweld rhywbeth o safbwynt rhywun arall – gallu gweld safbwynt y chwiorydd hyll efallai yn stori *Sinderela*. Yn yr agwedd ar ddysgu 'rheoli teimladau', sgîl cynnar fyddai gallu adnabod a labelu teimlad a gallu ei rannu â rhywun arall, a sgîl diweddarach fyddai gallu defnyddio strategaethau hunan-wyro a hunan-ymdawelu er mwyn lleihau dwyster y teimlad.

Rhestrir y sgiliau unigol o fewn pob agwedd gymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu ym mhob llyfryn sydd wedi'i lunio ar gyfer cyfnodau arbennig. Fe'u rhestrir ar ffurf datganiadau 'Dwi'n gallu ...' ac maen nhw'n dangos yr ystod o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth y gallai disgybl sydd wedi cael y cyfleoedd dysgu yn yr adnoddau hyn eu harddangos.

Mae sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn sail i bron pob agwedd ar fywyd ysgol, bywyd cartref a bywyd cymunedol, gan gynnwys dysgu effeithiol a chyd-dynnu â phobl eraill. Maen nhw'n hanfodol i wella ysgolion.

Pan fydd sgiliau da gan ddisgyblion yn y meysydd hyn, a chânt eu haddysgu o fewn amgylchedd sy'n gefnogol i iechyd a lles emosiynol, caiff disgyblion eu cymell a'u galluogi i:

- fod yn ddysgwyr effeithiol a llwyddiannus
- ffurfio a chynnal cyfeillgarwch
- delio â gwrthdaro a'i ddatrys mewn modd effeithiol a theg
- datrys problemau gydag eraill neu ar eu pennau eu hunain
- rheoli teimladau cryf megis rhwystredigaeth, dicter a phryder
- gallu hyrwyddo cyflwr tawel ac optimistaidd sy'n hyrwyddo'r gallu i gyflawni nodau
- dod dros rwystrau a dyfalbarhau yn wyneb anawsterau
- gweithio a chwarae'n gydweithredol
- cystadlu'n deg, ac ennill a cholli gydag urddas a pharch at gystadleuwyr
- cydnabod a sefyll dros eu hawliau nhw a hawliau pobl eraill
- deall a gwerthfawrogi'r hyn sy'n wahanol ac yn debyg rhwng pobl, gan barchu hawl pobl eraill i gael credoau a gwerthoedd sy'n wahanol i'w rhai nhw eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn ddatblygiadol ac yn newid dros amser. Er enghraifft, os ydyn ni'n meddwl am y profiad o golled, gwyddwn y bydd gallu disgyblion i reoli'r teimladau cysylltiedig, a'r ystod o strategaethau sydd ganddyn nhw, yn wahanol iawn yn y blynyddoedd cynnar o'i gymharu, er enghraifft, â'u profiad yn 11 oed. Felly ni allwn 'addysgu'r' sgiliau hyn unwaith yn unig. Mae angen ailymweld a datblygu'r cysyniadau, sgiliau a dealltwriaeth dros amser, gan adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd cynt.

Mae'r deunyddiau yn yr adnoddau ACEDd Cymru hyn yn ceisio cynorthwyo lleoliadau ac ysgolion gyda'r broses hon.

Mae gwahaniaeth hefyd yn y ffordd y bydd emosiynau yn cael eu gwerthfawrogi, eu profi a'u harddangos ar draws diwylliannau. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran 'Diwylliant, crefydd, rhyw a gwahaniaethau unigol eraill' (gweler tudalen 33). Mae sicrhau bod profiadau unigol disgyblion yn gefnogol i'r broses ddysgu yn cael ei hyrwyddo trwy'r adnoddau.

Erbyn hyn mae ystod eang o dystiolaeth ar gael i gefnogi'r achos dros effeithiolrwydd gwaith i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion mewn sawl maes:

- mwy o lwyddiant ym myd addysg ac ym myd gwaith
- gwella ymddygiad
- mwy o gynhwysiant
- gwella dysgu
- mwy o gydlyniant cymdeithasol.

Mae ymchwil diweddar wedi canolbwyntio'n arbennig ar fanteision hoelio sylw ar agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu (o fewn amgylchedd cefnogol ar draws y lleoliad neu'r ysgol) nid dim ond o ran gwella sgiliau gosod nodau, rhyngweithio cymdeithasol a sgiliau datrys anghydfod y disgyblion, ond o ran gwella eu perfformiad academaidd.

Wrth gwrs, nid yw hyn yn annisgwyl. Meddyliwch am geisio dysgu sgil newydd pan fydd gallu prosesu ein hymennydd yn brwydro am le yn erbyn emosiwn cryf – er enghraifft, gwylltio gyda'r gyrrwr sy'n torri ar ein traws wrth y goleuadau traffig, neu'r cyffro mawr ar ôl clywed ein bod ni newydd ennill y loteri.



Mae'n gallu i hyrwyddo cyflwr meddwl tawel ac optimistaidd sy'n hwyluso dysgu, lawn mor bwysiced â'n gallu i reoli emosiynau anghyfforddus cryf.



Mae'r rôl ganolog y mae emosiynau yn ei chwarae ym mhob profiad dysgu yn un o gasgliadau allweddol ymchwil diweddar. At hynny, bydd llawer o ddysgu yn digwydd o fewn cyd-destun cymdeithasol. Cyn y gall disgyblion ddechrau mynd i'r afael â gofynion gwybyddol unrhyw dasg, mae'n rhaid iddyn nhw allu ystyried y cydrannau cymdeithasol ac economaidd sy'n cyd-fynd â'r gweithgaredd.

Sut mae hyn yn cysylltu â'r hyn rydyn ni eisoes yn ei wneud?

Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ac ysgolion eisoes yn gwneud llawer i hyrwyddo dysgu cymdeithasol ac emosiynol fel agwedd allweddol ar ddiwylliant eu lleoliad neu eu hysgol. Gallan nhw wneud hyn drwy:

- amgylchedd yr ysgol gyfan
- Maes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol y Cyfnod Sylfaen
- Cyfnod Allweddol 2, *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*
- yr ymagwedd at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol
- *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*
- cyfleoedd ar draws y cwricwlwm ysgol, yn enwedig addysg grefyddol (gweler *Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*)
- Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru
- mentrau eraill megis amser cylch, ymagweddau hunan-barch, cyfryngu cyfoedion, a chynlluniau masnachol penodol sy'n addysgu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol
- y cymorth ychwanegol a ddarperir i'r disgyblion hynny y mae eu datblygiad ymddygiadol, cymdeithasol neu emosiynol yn achos pryder.

Mae meysydd amlwg o orgyffwrdd rhwng yr adnoddau a'r holl linyddau gwaith hyn. Tynnwyd sylw at y cysylltiadau mwyaf perthnasol â'r dogfennau canlynol o fewn y deunyddiau hyn:

- Maes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol y Cyfnod Sylfaen
- Cyfnod Allweddol 2, *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*
- *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*.

Bydd arferion da ysgolion mewn addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) ac arferion da yn natblygiad ACEDd Cymru yn cwmpasu sgiliau sy'n debyg yn fras, **ond mae ABCh hefyd yn cwmpasu amrywiaeth ehangach o dopigau neu feysydd sydd heb eu hystyried yn benodol trwy'r rhaglen ACEDd**. Mae meithrin sgiliau megis gallu gohirio dangos boddhad, cymryd cyfrifoldeb am eich gweithredoedd eich hunan, deall a delio â phwysau cyfoedion, gweithredu'n benderfynol, teimlo'n bositif amdanoch chi'ch hunan, a rheoli ystod gynyddol gymhleth o deimladau yn gallu cael ei ystyried yn 'flociau adeiladu' generig sy'n sail i allu disgyblion i gyflawni nifer o'r nodau yn y fframwaith ABCh.

Er mwyn llwyddo, mae ABCh a datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol effeithiol yn gofyn am y canlynol¹:

- proffil uchel a rhoi gwerth uchel ar y deilliannau ar bob lefel o arferion ysgol
- cyd-ddealltwriaeth mai cyfrifoldeb y gymuned ysgol gyfan yw hyrwyddo a meithrin sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion
- cwricwlwm a addysgir sy'n strwythuredig, yn gynyddol ac sy'n cynnig modd ailymweld â sgiliau a'u datblygu yn ôl gwahanol oeddrannau cronolegol
- ymagwedd drawsgwricwlaidd sy'n atgyfnerthu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a addysgir trwy'r cynllun cwricwlaidd penodol
- amgylchedd sy'n emosiynol diogel a chadarnhaol ac sy'n cyfateb â'r cwricwlwm a addysgir
- rhannu dibenion, iaith a strategaethau cytûn ar draws yr ysgol, er enghraifft, ar gyfer ymdawelu, datrys gwrthdaro, datrys problemau, a siarad am deimladau a'u rheoli
- rhaglen hyfforddi strwythuredig a chynyddol i'r holl staff sy'n meithrin sgiliau ac yn darparu'r profiadau a'r wybodaeth sy'n rhoi'r hyder iddyn nhw gefnogi addysg gymdeithasol ac emosiynol y disgyblion
- rhaglen sy'n cynnwys rhieni.

Mae adnoddau ACEDd Cymru wedi'u paratoi ar y sail y dylai pob lleoliad/ysgol gael hyd i'w ffordd ei hun o ddefnyddio'r deunyddiau, gan ystyried cymeriad arbennig y lleoliad/ysgol ei hun. Er enghraifft, efallai y bydd rhai yn dewis datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion drwy'r pynciau craidd sylfaenol a sylfaen, gan ddefnyddio'r syniadau a ddarparwyd ar gyfer gwersi pwnc. Efallai fod traddodiad cryf o amser cylch dyddiol gan eraill, a byddan nhw'n dewis defnyddio hwn fel y prif ddull ar gyfer mynd i'r afael â'r themâu a'r sgiliau a ddatblygir yn y deunyddiau; efallai fod eraill yn gweithio ar gynllun Ysgol lach neu'n defnyddio adnoddau masnachol sy'n bod a bydden nhw'n defnyddio'r rhain fel y prif gyfrwng gweithredu.

Bwriedir i'r adnoddau ategu, nid disodli'r gwaith effeithiol sy'n mynd rhagddo eisoes mewn nifer o leoliadau ac ysgolion i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Fe'u cynigir naill ai fel cyfres o weithgareddau ac adnoddau ychwanegol i gefnogi'r hyn sydd eisoes yn digwydd yn yr ysgol, neu fel fframwaith ac adnodd annibynnol y gellir gosod gwaith arall tebyg o'i fewn.

¹ Gweler Atodiad 1.

Beth mae'r adnoddau yn ei gynnig i'r lleoliad/ysgol?

Mae'r adnoddau yn cynnig:


- deunyddiau penodol, strwythuredig ar gyfer y cwricwlwm cyfan i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol **pob** disgybl (nid dim ond y rhai y mae eu hymddygiad neu sgiliau cymdeithasol gwael yn achosi problemau), gan ddefnyddio trefniadau cwricwlaidd presennol
- cwricwlwm sbiral sy'n ailymweld â phob thema (a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â'r thema honno) gan gynnig syniadau newydd bob blwyddyn, sy'n golygu y bydd plentyn sy'n dechrau ysgol yn y Cyfnod Sylfaen ac sy'n gadael ar ddiwedd Blwyddyn 6 wedi profi pob thema (ar lefel briodol) bob blwyddyn; felly bydd disgyblion yn arddangos cynnydd yn y sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol allweddol wrth iddyn nhw symud trwy'r ysgol
- dull o wella ABCh
- gwasanaeth/amser grŵp y Cyfnod Sylfaen ar thema glir ACEDd
- awgrymiadau ar gyfer gwaith ar bob thema gwasanaeth/amser grŵp y Cyfnod Sylfaen ym mhob grŵp blwyddyn, o'r Cyfnod Sylfaen hyd at Flwyddyn 6 – y nod yw cael grwpiau oedran gwahanol i weithio ar agweddau gwahanol ar y thema gyffredin, a gallan nhw ddychwelyd mewn gwasanaeth dilynol i gyflwyno eu gwaith a chyd-fyfyrir ar yr hyn a ddysgwyd
- y potensial i addysgu disgyblion sut i ddatblygu a defnyddio sgiliau meddwl a theimladau gyda'i gilydd i lywio eu hymddygiad, gan ddefnyddio, er enghraifft, technegau ymdawelu, datrys problemau a rheoli wrthdaro a ddysgwyd
- y potensial i gyd-ddeall a chyd-ddefnyddio'r strategaethau hyn ar draws y lleoliad/ysgol, y cartref a'r gymuned
- canolbwynt posibl i'r lleoliad/ysgol gyfan ar gyfer sylwi ar ymddygiad cadarnhaol a'i ddathlu (er enghraifft, am gyfnod penodol o amser 'dal disgyblion yn ymddwyn yn garedig' neu 'ddal disgyblion yn datrys dadl yn dda'). Mae hyn yn cynnwys y gymuned lleoliad/ysgol gyfan – disgyblion, rhieni/warcheidwaid, y gofalwr, staff swyddfa a goruchwylwyr amser cinio, yn ogystal ag ymarferwyr/athrawon a chynorthwylwyr addysgu – sydd i gyd yn gallu enwebu disgybl i'w ddathlu gan ddilyn trefn arferol y lleoliad/ysgol.

Sut mae'r adnoddau'n berthnasol i blant sy'n cael anawsterau yn y maes hwn?

Cydnabyddir yn gyffredinol na fydd unrhyw fframwaith sy'n cynnwys canolbwyntio ar yr agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu yn debygol o fod yn effeithiol oni bai fod ffocws penodol o fewn amgylchedd y lleoliad/ysgol ar iechyd a lles emosiynol. Does dim dwywaith ychwaith y bydd bob amser nifer o ddisgyblion y mae angen, am ba bynnag rheswm, gymorth ychwanegol arnyn nhw yn y maes hwn.

Gall y ddelwedd yn Ffigur 1 fod yn ddefnyddiol.

Ffigur 1



Ar frig y triongl gwrthdro mae mentrau lleoliad/ysgol gyfan sy'n canolbwyntio ar greu amgylchedd o iechyd a lles emosiynol, ac ymagwedd y lleoliad/ysgol gyfan at ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol y disgyblion. Ar y gwaelod mae'r ymyrraethau a ddefnyddiwn gydag unigolion y mae eu hanawsterau yn y maes hwn yn ein harwain at ddarparu cymorth unigol ac aml-asiantaeth yn aml. Y mwyaf effeithiol y ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl (ar frig y triongl gwrthdro), lleiaf y disgyblion fydd angen y cymorth mwy unigol hwn ar y gwaelod.

Mae'r pecyn adnoddau hwn yn rhan o'r ddarpariaeth ar frig y triongl. Mae'n ceisio rhoi hawl gyffredinol i bob disgybl ddysgu ac ymarfer sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol o fewn fframwaith cwricwlwm sbiral sy'n eu galluogi i wneud cynnydd mewn modd strwythuredig a hierarchaidd.

Darperir deunyddiau atodol yn y pecyn ar gyfer disgyblion y gall fod angen cymorth ychwanegol arnyn nhw mewn grwpiau bach, ond canolbwyntir yn bennaf ar hawl gyffredinol **pob** disgybl i gael addysg gymdeithasol ac emosiynol yn yr ysgol.

Sut mae'r adnoddau wedi'u trefnu?

Mae'r adnoddau y gellir eu lawrlwytho wedi'u trefnu fel saith thema:

- Thema 1 *Dechrau newydd*
- Thema 2 *Cyd-dynnu a chweryla*
- Thema 3 *Dweud na wrth fwlio*
- Thema 4 *Mynd amdani!*
- Thema 5 *Hoffi fi fy hun*
- Thema 6 *Perthnasoedd*
- Thema 7 *Newidiadau.*

Mae pob thema yn cynnwys:

- gweithgareddau datblygu staff sy'n berthnasol i'r thema (set **Porffor**)
- *Trosolwg* o'r thema (gan gynnwys cysylltiadau ag addysg bersonol a chymdeithasol, y fframwaith sgiliau a Chynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, a'r deilliannau dysgu disgwylidig i ddisgyblion ym mhob un o'r pedair lefel gyda chodau lliw) a sgript a chwestiynau gwasanaeth/amser cylch y Cyfnod Sylfaen ar gyfer yr ysgol gyfan (a syniadau ar gyfer amrywio hyn bob blwyddyn) i lansio cyfres o weithgareddau dosbarth ar y thema
- cyfleoedd dysgu a chynlluniau gwersi posib i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion trwy'r thema, ym mhob un o'r tair lefel gyda chodau lliw:
 - set **Glas**: Y Cyfnod Sylfaen Elfennau 1–4
 - set **Melyn**: Blynnyddoedd 3 a 4
 - set **Gwyrdd**: Blynnyddoedd 5 a 6(Bydd rhaid i ymarferwyr/athrawon ddefnyddio eu barn broffesiynol, fodd bynnag, i benderfynu pa weithgareddau sy'n briodol yn ddatblygiadol i'w disgyblion, a sut i 'gymysgu a chyfateb' pan fyddan nhw'n gweithio gyda dosbarthiadau oedran cymysg.)
- cyfleoedd dysgu gwahaniaethol ar gyfer gweithio mewn grwpiau bach gyda disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnyn nhw i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (set **Arian**)
- gweithgareddau y gall teuluoedd eu gwneud gyda'i gilydd gartref (set **Aur**).

Ffeil adnoddau ysgol gyfan sy'n cynnwys:

- poster i ar gyfer yr ystafell ddosbarth
- cardiau llun 'teimladau'
- deunyddiau cyfeirio/adnoddau i athrawon/ymarferwyr y gellir eu llungopio
- cyflwyniadau PowerPoint.

Mae gwasanaethau yn seciwlwr eu naws ar y cyfan ac nid ydyn nhw'n cynnwys unrhyw elfen o addoli. Yn eu ffurf bresennol, nid ydyn nhw'n bodloni'r gofynion ar gyfer addoli ar y cyd a dylid darparu ar gyfer addoli ryw adeg arall yn ystod y dydd (neu'r elfen o addoli sy'n cael ei chorffori gan yr ysgol yn ei ffordd ei hun).

Er hynny, dylai'r gwasanaethau gael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n nodi eu bod yn gynulladau pwysig lle bydd y disgyblion yn dawel, yn llonydd ac yn fyfyrïol.

Yn yr un modd ag addoli ar y cyd, mae gwasanaethau yn ceisio helpu disgyblion i weld a theimlo eu bod yn rhan o gymuned, rhywbeth mwy, a bod gwerthoedd cyffredin ganddyn nhw. Maen nhw'n ceisio rhoi cyfle iddyn nhw ddatblygu eu hymwybyddiaeth emosiynol drwy ymateb, er enghraifft, i lawenydd neu dristwch, harddwch neu boen, eu helpu i feddwl ac archwilio yn hytrach na barnu neu esbonio.

Mae paratoi'r llwyfan yn bwysig er mwyn dangos bod y neuadd yn cael ei defnyddio ar gyfer rhywbeth arall heblaw cinio neu addysg gorfforol. Yn yr un modd ag addoli ar y cyd, gellir cyflawni hyn drwy gerddoriaeth, sy'n gallu codi neu newid hwyliau, a/neu drwy symbyliadau gweledol megis kannwyll neu flodau. Mae darnau arbennig o gerddoriaeth yn cael eu hawgrymu ar gyfer pob gwasanaeth/amser cylch y Cyfnod Sylfaen, ond gellir defnyddio dewisiadau'r disgyblion eu hunain yn eu lle neu gerddoriaeth arall sy'n gweddu i'r thema.



Ar ddiwedd pob gwasanaeth/amser cylch y Cyfnod Sylfaen dylai'r disgyblion gael cyfle i fyfyrion dawl ar yr hyn y maen nhw'n wedi'i archwilio a meddwl sut bydd hyn yn berthnasol i'w bywydau eu hunain. Mae eistedd yn dawl i fyfyrion yn sgil pwysig y gellir ei addysgu a'i ddysgu. Os nad yw disgyblion wedi ymarfer y sgil hwn o'r blaen, neilltuwch gyfnod byr i ddechrau (tua munud), a'i estyn yn raddol i ddim mwy na thair munud. Mae defnyddio cannyll i helpu'r myfyrion yn effeithiol iawn. Gall disgyblion wyllo'r fflam neu gau eu llygaid. Mae chwythu'r gannnyll allan yn nodi diwedd yr amser meddwl. Ar ddiwedd gwasanaeth/amser cylch y Cyfnod Sylfaen, gall disgyblion ysgwyd llaw â'r disgyblion wrth eu hymyl, neu wenu arny'n nhw cyn iddyn nhw adael.

Mae'r gwasanaethau, yn debyg i agweddau eraill ar y gwaith ar agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu, yn ceisio datblygu:

- ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol y disgyblion drwy hyrwyddo eu hymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch
- moesoldeb y disgyblion trwy addysgu egwyddorion sy'n llywio ymddygiad
- datblygu sgiliau cymdeithasol y disgyblion drwy dynnu sylw at bwysigrwydd byw a gweithio'n gydweithredol mewn grwpiau bach a mawr o fewn cymdeithas ethnig amrywiol
- ymwybyddiaeth ddiwylliannol y disgyblion drwy roi cyfleoedd iddyn nhw archwilio eu gwerthoedd a'u rhagdybiaethau nhw eu hunain a rhai pobl eraill.

Ar gyfer rhai plant yn y Cyfnod Sylfaen mae'n bosibl na fydd yn addas i ddefnyddio gwasanaethau i gyflwyno'r thema. Dylai ymarferwyr benderfynu ai gwasanaeth ar gyfer y lleoliad/ysgol gyfan neu gynulliad dosbarth/grŵp, neu gymysgedd o'r rhain, yw'r lle mwyaf priodol i gyflwyno'r themâu. Dylai'r gweithgareddau a awgrymir weithio'n effeithiol pa bynnag gyd-destun a ddefnyddir.

Wrth ystyried storïau'r gwasanaeth, bydd angen meddwl yn arbennig am gefnogi plant sydd yng nghamau cynharach dysgu Cymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol, a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) sy'n ei chael hi'n anodd i ddeall iaith gymhleth. Gallai strategaethau gynnwys y canlynol:

- cyflwyno pob stori mewn grwpiau bach cyn y gwasanaeth, gan ddefnyddio'r darluniau a ddarperir yn y Ffeil adnoddau ysgol gyfan a rhoi cyfleoedd ar gyfer siarad mewn parau a thrafod gyda chyfoedion
- gweithgareddau cyn-wrando megis rhagweld am beth fydd y stori drwy roi'r teitl, linell gyntaf y stori neu ddarlun allweddol – yna gall y plant fynd ymlaen i ragweld y geiriau y byddan nhw'n disgwyl eu clywed yn y stori neu ba gwestiynau maen nhw'n credu y bydd y stori yn eu hateb
- creu storïau sain syml a/neu storïau testun darluniadol gan ddefnyddio darluniau'r plant neu gyflwyniadau gweledol eraill, ynghyd ag iaith neu destun syml yn Gymraeg/Saesneg a/neu ieithoedd eraill, neu symbolau
- recordio'r storïau yn yr ieithoedd a ddefnyddir yn yr ysgol a'r gymuned
- ymarferion gwrando gweithredol pan fydd y stori'n cael ei hadrodd yn y gwasanaeth, megis cael rhestr ddarluniadol a gwrando am y geiriau hyn yn y stori, neu ddilyniannu'r darluniau a roddir wrth i'r stori ddatblygu
- gwaith dilynol ar ôl gwrando ar y storïau, gan gynnwys dilyniannu cardiau lluniau o'r digwyddiadau a gwneud sribedi cartŵn, mapiau stori neu linellau amser.

Sut mae cysylltiadau'n cael eu gwneud â'r cwricwlwm ac agweddau eraill ar fywyd y lleoliad/ysgol?

Yn y trosolwg o bob thema mae adran o'r enw 'Cysylltiadau a gorgyffwrdd'. Gwneir cysylltiadau â meysydd cysylltiedig mewn mentrau eraill, megis Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru.

Tynnir sylw hefyd at themâu sy'n cysylltu'n arbennig o dda â mentrau sydd wedi hen ennill eu plwyf megis cyfryngu cyfoedion (cysylltiadau â Thema 2 *Cyd-dynnu a chweryla*) a chynlluniau cyfeillio/cylch ffrindiau (cysylltiadau â Thema 1 *Dechrau newydd*).

Gwneir cysylltiadau penodol â'r fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol a'r fframwaith sgiliau yn adran ragarweiniol y set ar gyfer pob thema gyda chodau lliw.

Bydd llawer o syniadau gan athrawon ynghylch sut i gysylltu eu haddysgu â'r gwaith arall maen nhw'n gwneud yn Gymraeg/Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth, dylunio a thechnoleg, TGCh, addysg gorfforol ac addysg grefyddol.





Awgrymir amserau penodol sy'n gweddu i'r flwyddyn lleoliad/ysgol (er enghraifft, *Dechrau newydd* ym mis Medi ac *Mynd amdani!* ym mis Ionawr). Nid yw'r amserau a awgrymir yn sefydlog ac efallai y bydd lleoliadau ac ysgolion yn hoffi gweithio arnyn nhw ar adegau gwahanol, er enghraifft, i gyd-fynd â gwyliau gwahanol grefyddau a diwylliannau. Mae'n rhaid i leoliadau ac ysgolion fod yn ymwybodol hefyd fod gwaith diweddarach o fewn y dilyniant awgrymedig o themâu weithiau'n adeiladu ar gysyniadau allweddol a addysgwyd ynghynt yn y flwyddyn. Am y rheswm hwn, os yw lleoliadau ac ysgolion yn aildrefnu'r themâu yn y flwyddyn gyntaf maen nhw'n eu defnyddio, bydd rhaid iddyn nhw fod yn ymwybodol o'r cysyniadau allweddol hyn (er enghraifft, y broses datrys problemau yn heddychlon), a chynllunio sut byddan nhw'n eu hastudio'n benodol wrth baratoi ar gyfer gwaith ar y thema o'u dewis.

Rhif y thema a'r adeg o'r flwyddyn a awgrymir	Teitl y thema	Agweddau cymdeithasol ac emosiynol allweddol ar ddysgu dan sylw
1. Medi/Hydref	<i>Dechrau newydd</i>	• Empathi • Hunanymwybyddiaeth • Cymhelliant • Sgiliau cymdeithasol
2. Tachwedd/Rhagfyr	<i>Cyd-dynnu a chweryla</i>	• Rheoli teimladau • Empathi • Sgiliau cymdeithasol
3. Wythnos neu bythefnos yn nhymor yr hydref (i gyd-fynd â'r wythnos gwrth-fwllo genedlaethol ym mis Tachwedd)	<i>Dweud na wrth fwlio</i>	• Empathi • Hunanymwybyddiaeth • Sgiliau cymdeithasol
4. Ionawr/Chwefror	<i>Mynd amdani!</i>	• Cymhelliant • Hunanymwybyddiaeth
5. Chwefror/Mawrth	<i>Hoffi fi fy hun</i>	• Hunanymwybyddiaeth • Rheoli teimladau • Empathi
6. Mawrth/Ebrill	<i>Perthnasoedd</i>	• Hunanymwybyddiaeth • Rheoli teimladau • Empathi
7. Mehefin/Gorffennaf	<i>Newidiadau</i>	• Cymhelliant • Sgiliau cymdeithasol • Rheoli teimladau

Pwysigrwydd gwneud adnoddau ACEDd Cymru yn rhan o ymagwedd y lleoliad/ysgol gyfan

Pan gafodd adnoddau ACEDd eu treialu yn Lloegr, daeth y tîm gwerthuso allanol i'r casgliad canlynol 'er mwyn i'r adnoddau weithio'n dda, mae'n bwysig bod y gymuned ysgol gyfan yn ymgysylltu â'r deunyddiau'. I gael yr effaith fwyaf, bydd pob dosbarth yn yr ysgol yn meddwl am yr un syniadau ac yn defnyddio iaith gyffredin dros yr un cyfnod.

Hefyd, mae'n rhaid i'r defnydd o'r adnoddau gael ei blannu o fewn ymagwedd ac amgylchedd y lleoliad/ysgol gyfan sy'n cefnogi iechyd a lles emosiynol. Yn achos ysgolion sy'n rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, mae Iechyd a Lles Meddwl ac Emosiynol yn un o'r saith topig y mae angen eu hastudio fel rhan o'r Wobr Ansawdd Cenedlaethol. Gallai ACEDd Cymru ddarparu elfen o hynny.

Mae gwaith ymchwil wedi adnabod y ffactorau canlynol fel rhai sy'n hanfodol i lwyddiant:

- ymrwymiad uwch reolwyr i'r egwyddorion a dealltwriaeth o'r goblygiadau
- systemau'r lleoliad/ysgol sy'n sicrhau bod unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eraill yn gwrandao arnyn nhw
- perthnasoedd cadarnhaol yn y lleoliad/ysgol: oedolyn-plentyn, plentyn-plentyn, oedolyn-oedolyn
- dealltwriaeth a gwybodaeth athrawon (neu ymarferwyr) o'r ffactorau emosiynol sy'n effeithio ar ddysgu
- polisiau sy'n cael eu gweithredu'n glir ac yn gyson ar ymddygiad, bwllo, cydraddoldeb hil a chynhwysiant
- safonau proffesiynol uchel
- addysgu medrus sy'n ennyn diddordeb disgyblion a'u cymell
- gwaith rhagweithiol gyda rhieni/warcheidwaid
- cyfraniad gweithgar y disgyblion eu hunain.


Bydd gofyn i leoliadau ac ysgolion sy'n bwriadu defnyddio'r deunyddiau hyn sicrhau cyn belled â phosibl fod yr holl amodau hyn wedi'u sefydlu.

Efallai yr hoffai ysgolion archwilio Dull Asesu Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru sydd ar gael gan Gydlynwyr Cynlluniau Ysgolion Iach lleol.

Cynllunio'r cwricwlwm: materion i'w hystyried

Bydd y penderfyniad i ddefnyddio deunyddiau ACEDd Cymru yn gofyn am broses ofalus o gynllunio strategol. Dylai'r broses hon gefnogi adolygiad o ddarpariaeth ABCh gyffredinol yr ysgol ac felly dylai gynnwys y cydlynnydd ABCh a'r cydlynnydd ysgolion iach, a dylid ei gynnal yn dilyn trafodaethau a chefnogaeth gan y llywodraethwyr.

Bydd angen amser ar uwch reolwyr a'r sawl sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd am ACEDd i gynllunio ar gyfer gweithredu'r adnoddau. Dylai cydlynwyr pwnc fod yn rhan o'r broses hon oherwydd maen nhw'n adnoddau ar gyfer y cwricwlwm cyfan. Dylid ceisio adborth ym mhob cam gan staff eraill, disgyblion a rhieni/warcheidwaid.



Mae'n debyg y bydd gorgyffwrdd â'r hyn sydd eisoes yn digwydd yn y lleoliad/ysgol ac mae angen adnabod hyn a phlethu'r adnoddau â'r hyn sydd eisoes wedi'i sefydlu. Mae cwestiynau defnyddiol i'w gofyn i chi'ch hunan yn cael eu hawgrymu isod.

- Beth yw ein hanghenion a'n blaenoriaethau o ran datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (gan ystyried cymeriad unigryw ein lleoliad/ysgol a'r ardal ddaearyddol leol)?
- Beth yw cyflwr presennol datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a sut mae hyn yn cael ei gyflawni?
- Beth sy'n gweithio'n dda i ni yn y maes hwn?
- Beth yw'r bylchau yn yr arferion presennol?
- Sut mae cynnydd yn cael ei sicrhau (a'i asesu) yn y maes hwn?
- Beth allen ni ei newid/dileu/ychwanegu yn sgîl yr adnoddau newydd hyn? Yn arbennig:
 - a ddylai'r adnoddau gael eu defnyddio fel fframwaith trefnu y gall gwaith arall ar ACEDd gael ei osod o'i fewn, neu a ddylai'r adnoddau nythu o fewn y trefniadau presennol ar gyfer addysgu ABCh?
 - pa faterion sy'n codi o ran staffio/amserlennu?
 - sut bydd y gwasanaethau yn ffitio mewn i'n fframweithiau presennol ar gyfer gwasanaethau a chyd-addoli?
 - sut gallwn ni sicrhau fod ein darpariaeth yn bodloni anghenion pob disgybl?
- Os yw gweithgareddau ACEDd Cymru yn cael eu cyflwyno mewn sesiynau ar wahân fel gwaith dilynol i wasanaeth/amser cylch y Cyfnod Sylfaen, ble fyddwn ni'n lleoli'r sesiynau hyn? Yn yr amser sydd gennym ar hyn o bryd ar gyfer ABCh, er enghraifft? Neu o fewn amser cylch? Neu ryw adeg arall?

- Sut mae'r gweithgareddau cwricwlaidd a awgrymir yn cyfateb â'n cynlluniau gwaith?
- Sut gallwn ni sicrhau bod cydlynwyr pwnc yn cymryd rhan yn y gwaith cynllunio?
- Sut gallwn ni sicrhau bod disgyblion yn deall pwrpas y gwaith i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, ac yn cymryd rhan yn y gwaith cynllunio?
- Sut byddwn ni'n cynnwys rhieni/warcheidwaid yn ein cynlluniau?
- Pa ffynonellau cymorth fydd gennym?
- Pa hyfforddiant cychwynnol a pharhaus fydd ei angen?
- Pa adnoddau allai fod eu hangen arnom?
- Sut byddwn ni'n adlewyrchu hyn i gyd yn ein Cynllun Datblygu Ysgol neu Gynllun Gwella Ysgol?

Datblygiad proffesiynol staff

Yn yr un modd ag unrhyw adnoddau trawsgwricwlaidd a gyflwynir, mae'n bosibl y bydd angen i'r gwaith cynllunio gynnwys datblygiad proffesiynol ar gyfer staff ysgol. Mae datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion yn cynnwys y cwricwlwm ffurfiol ac anffurfiol, ac felly mae'n bwysig bod agweddau ar y cyfleoedd datblygiad proffesiynol yn cynnwys holl staff y lleoliad/ysgol (goruchwylwyr amser cinio, y gofalwr, staff ysgrifenyddol a gweinyddol, ac unrhyw staff eraill sy'n cael cysylltiad uniongyrchol â'r disgyblion).

Mae setiau o ddeunyddiau yn yr adnoddau (y setiau Porffor) i'w defnyddio'n hyblyg o fewn yr ysgol i fodloni anghenion datblygiad proffesiynol yr holl staff ysgol. Mae'r setiau'n cynnwys:

- pecyn rhagarweiniol yn Thema 1 *Dechrau newydd* ynghylch datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol fel ymagwedd ysgol gyfan
- cyfres o syniadau fesul thema i gynorthwyo staff wrth iddyn nhw weithio ar y thema honno gyda'u grwpiau dosbarth.

Mae'r pecyn rhagarweiniol o syniadau yn ceisio galluogi holl aelodau staff yr ysgol i deimlo'n hyderus, yn gymwys ac yn frwdfrydig ynghylch gwaith ar yr agweddau emosiynol a chymdeithasol ar ddysgu. Gellir defnyddio'r syniadau hyn fel rhan o ddiwrnod hyfforddiant mewn swydd neu eu defnyddio o fewn cyfarfodydd staff.

Maen nhw'n cwmpasu materion fel y canlynol.

- Beth yw'r agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu a pham dylen ni ganolbwyntio arnyn nhw?
- Beth yw sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol?
- Beth ydyn ni'n ei wneud eisoes yn yr ysgol a sut bydd yr adnoddau hyn yn ychwanegu gwerth at arferion presennol?
- Beth yw pwrpas, strwythur a chynnwys allweddol yr adnoddau? Sut mae'r adnoddau yn cynnwys rhieni/warcheidwaid?
- Beth yw'r pethau y bydd pawb yn yr ysgol yn eu gwneud?
- Sut mae'r gwaith hwn yn cysylltu ag addysgu a dysgu a sut bydd yn gweithio yn ymarferol yn y dosbarth a'r tu allan i'r dosbarth?

Hefyd, gall ysgolion ddefnyddio'r syniadau a'r wybodaeth yn y set Porffor fesul thema mewn cyfarfodydd staff, sesiynau gyda'r hwyr neu yn ystod diwrnodau HMS. Maen nhw'n darparu'r cyfle i staff archwilio cynnwys y thema, deall rhai o'r cysyniadau sylfaenol a gwneud cysylltiadau rhwng eu profiadau eu hunain a'r profiadau y gallai'r disgyblion eu cyfrannu at y gwaith.

Dylai gweithgareddau datblygiad proffesiynol bwysleisio rôl hanfodol pob aelod o'r staff o ran modelu'r sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol y mae'r deunyddiau yn ceisio eu meithrin yn y disgyblion. Gweithgaredd hyfforddi defnyddiol yw gweithio mewn parau neu grwpiau bach i gynhyrchu syniadau ar ymddygiad ac iaith oedolion sy'n hyrwyddo sgiliau'r disgyblion ym mhob un o'r agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu, fel yn Ffigur 2 (isod).

Ffigur 2

Agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu	Ymddygiad ac iaith oedolion sy'n helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol unigol disgyblion o fewn pob agwedd
Hunanymwybyddiaeth 	
Empathi 	
Rheoli teimladau 	
Cymell ein hunain 	
Sgiliau cymdeithasol 	

Wrth i'r staff weithio gyda'r deunyddiau cwricwlaidd, efallai y byddan nhw'n adnabod anghenion hyfforddi penodol ar gyfer ymagweddau megis amser cylch neu gymunedau o ymholi, sy'n arbennig o addas ar gyfer gwaith ar ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion.

Casglu adnoddau

Efallai y bydd lleoliadau/ysgolion yn dymuno dewis llyfrau o'u llyfrgell ysgol i gefnogi pob thema ACEDd, a'u cadw mewn lle canolog. Mae'r Ffeil adnoddau ysgol gyfan yn cynnwys rhestr o destunau defnyddiol ar gyfer pob thema, ac mae gwasanaeth llyfrgell Southampton yn darparu rhestr ar y we sy'n cael ei diweddarau'n gyson o destunau Saesneg sy'n berthnasol i emosiynau penodol. Gellir ei gweld ar-lein yn www.nelig.com

Mae'n bosib y bydd gwasanaethau llyfrgell lleol yn darparu llyfrau priodol yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac efallai y byddwch hefyd yn gweld adnoddau perthnasol yn Gymraeg ac yn Saesneg wedi'u rhestru ar-lein yn www.wales.com

Mewn un ysgol sydd wedi defnyddio'r adnoddau fel fframwaith i drefnu arferion ac adnoddau presennol, mae'r cydlynnydd ABCCh wedi rhoi blwch mawr ar gyfer pob thema yn yr ystafell staff. Mewn cyfarfodydd staff ac wrth iddyn nhw addysgu, bydd staff yn rhoi unrhyw lyfr neu adnodd sy'n berthnasol i'r thema yn y blwch – neu os oes angen yr adnoddau arnyn nhw, byddan nhw'n ei gofnodi fel cyfeirlyfr. Mae cyfraniadau yn cael eu trafod yn gyflym mewn cyfarfodydd staff.

Dechrau arni

Yn ogystal â'r gwaith gyda'r holl staff ar gysyniadau allweddol a chyd-destun y lleoliad/ysgol gyfan, bydd angen i'r tîm rheoli gynllunio:

- un neu ragor o gyfarfodydd staff cyn 'lansio'r' thema, er mwyn sicrhau cysondeb a gwybodaeth, dealltwriaeth a hyder staff drwy ddefnyddio gweithgareddau'r set Porffor
- gwasanaeth 30 munud (neu amser cylch y Cyfnod Sylfaen byrrach) i lansio pob thema
- sesiynau penodedig i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ym mhob dosbarth ar gyfer pob thema, wedi'u cyflwyno'n hyblyg ym mha bynnag ffurf a benderfynir gan y lleoliad/ysgol (dyma pryd gellir defnyddio'r gweithgareddau a amlinellir) – mae profiadau ysgolion yn dangos ei bod hi'n effeithiol i awgrymu'r terfyn amser lleiaf i'w dreulio ar ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ym mhob dosbarth dros yr hanner tymor (mae tua phedair awr i'w weld yn gyfnod ymarferol) a rhoi hyblygrwydd i athrawon ynghylch sut, beth a phryd; byddan nhw hefyd yn gweld posibiliadau ar gyfer ymestyn y syniadau ar draws y cwricwlwm ysgol ehangach
- gwasanaeth dilynol i rannu'r gwaith a wnaed a'r llwyddiant o ran cyflawni'r deilliannau dysgu.

Mae rhieni a gwarcheidwaid yn allweddol i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol disgyblion. Maen nhw'n arbenigwyr ar eu plant eu hunain, ac mae eu gwybodaeth am sgiliau datblygol eu plant yn gallu darparu gwybodaeth werthfawr iawn am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd ei angen.

Mae'n hollbwysig i gynnwys rhieni a gwarcheidwaid wrth gyflwyno'r ymagweddau a ddisgrifir yn y deunyddiau hyn. Dylid ymgynghori â nhw yn ystod y cynllunio cychwynnol a dylid ceisio eu barn wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Un dull defnyddiol yw cael grwpiau o ddisgyblion i baratoi cyflwyniad o'u gwaith ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ar gyfer noson rhieni neu gyfarfod arall. Mae dangos DVDau o'r disgyblion yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn 'atyniad' da arall ar gyfer digwyddiadau o'r fath.

Mae sawl ysgol wedi lansio eu gwaith ar y deunyddiau cwricwlaidd gyda gweithdy wedi'i gynllunio'n arbennig ar gyfer rhieni/warcheidwaid sy'n archwilio'r sgiliau y bydd y disgyblion yn eu datblygu. Fe gewch syniadau ar gyfer gweithdy o'r fath yn y Ffeil adnoddau ysgol gyfan.

Ym mhob un o'r themâu yn y deunyddiau cwricwlaidd mae syniadau ar gyfer y gweithgareddau y gall y disgyblion eu gwneud gartref gyda'u teuluoedd, i gefnogi eu gwaith yn yr ysgol ac adeiladu ar y bartneriaeth sydd wedi ffurfio â rhieni/warcheidwaid.

Gall rhieni/warcheidwaid gyfrannu at waith i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn y dosbarth (er enghraifft, pan fydd ymwelwyr yn siarad am eu profiadau) a'u gwahodd i gymryd rhan yn y gwasanaethau sy'n lansio ac yn cloi pob thema. Bydd diddordeb ganddyn nhw yn y ffocws lleoliad/ysgol gyfan ar gyfer sylwi ar lwyddiant a'i ddathlu, ac efallai y byddan nhw am gael ffocws tebyg gartref. Hefyd, bydd diddordeb ganddyn nhw yn y cysyniadau allweddol, megis y strategaeth datrys problemau y bydd disgyblion yn ei dysgu, a bydd angen iddyn nhw wybod y sail resymol ar eu cyfer.

Mae cylchlythyrau, y proffil ysgol blynyddol neu adroddiad y llywodraethwyr i rieni/warcheidwaid a gwybodaeth yn llawlyfr y lleoliad/ysgol yn gyfrwng arall ar gyfer cyfathrebu parhaus.

Wrth ystyried hyn mae'n hanfodol i fod yn ymwybodol o'r amrywiaeth yn y grŵp rhieni/warcheidwaid, a dewis ymagweddau sy'n cyrraedd pob rhiant/warcheidwad – waeth beth fo'u galluoedd iaith, gwerthoedd a phrofiadau addysg. Mae angen herio rhagdybiaethau na fydd diddordeb gan rai grwpiau yn yr hyn sydd gan yr ysgol i'w gynnig. Efallai y bydd angen rhoi anogaeth neu gymorth ychwanegol i'w galluogi i gymryd rhan weithredol – gall mentrau dysgu fel teulu, er enghraifft, fod yn ffordd o bontio i grwpiau amrywiol yn aml iawn. Mae chwalu hud addysg ac esbonio, weithiau i grwpiau wedi'u targedu, sut gall rhieni/warcheidwaid gefnogi eu plant wrth iddyn nhw ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn hanfodol i waredu ofnau a goresgyn rhwystrau cudd eraill.

Cynnwys plant

Un o ddeiliannau allweddol gwaith llwyddiannus wrth ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yw datblygu plant annibynnol sy'n gallu cymryd perchnogaeth o'u dysgu a'u hymddygiad eu hunain. Bydd cyflawni'r deiliannau hyn yn dibynnu ar sut mae'r ysgol gyfan yn hyrwyddo cyfranogiad y disgyblion.

Wrth addysgu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol dylai ymarferwyr/athrawon ofyn i'w hunain yn gyson sut gallan nhw annog y plant i gymryd perchnogaeth. Mae syniadau posibl yn cynnwys:

- cynnwys plant yn llwyr yn y penderfyniad i weithredu'r ymagwedd gwricwlaidd ACEDd, a sicrhau eu bod nhw, yn ogystal ag oedolion, yn deall diben y gwaith a'r deiliannau a ddymunir
- eu cynnwys wrth adnabod y meini prawf sy'n dangos llwyddiant
- eu cynnwys wrth werthuso eu dysgu
- rhoi dewis ynghylch sut i gwblhau gweithgareddau a thasgau a sut i gyflwyno gwybodaeth
- eu hannog i baratoi eu cwestiynau eu hunain ar gyfer ymholi a dadlau
- defnyddio technegau rheoli ymddygiad sy'n annog y plant i ddewis sut maen nhw'n ymddwyn
- darparu cyfleoedd i'r plant sefydlu'r rheolau a'r arferion yn y dosbarth a'r iard chwarae, a'r rheolau sylfaenol ar gyfer y gweithgareddau i ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol
- darparu cyfleoedd i'r plant ystyried sut gallan nhw greu amgylchedd a naws yn y dosbarth sy'n hybu dysgu da a lles emosiynol.

Mae cynghorau ysgol yn annog plant i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau o fewn cyd-destun yr ysgol gyfan. Maen nhw'n fwyaf effeithiol pan maen nhw'n cael eu cefnogi gan gynghorau dosbarth neu amser cylch rheolaidd sy'n cynnig fforwm i drafod materion sy'n ymwneud â'r dosbarth a'r ysgol.



Addysgu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol

Dulliau addysgu a dysgu

Mae'r cyfleoedd dysgu a awgrymir yn yr adnoddau hyn wedi cael eu llunio er mwyn i ddysgu cymdeithasol ac emosiynol ffurfio maes pwnc y bwriadau dysgu a amlinellir gan ymarferwyr/athrawon. Dyma'r rhan o'r cwricwlwm lle mae sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu gwneud yn benodol (eu 'haddysgu'). Mae'r sesiynau ystafell ddosbarth hyn yn cydweddu â gweddill profiadau'r disgyblion yn y lleoliad/ysgol lle mae sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn fwy tebygol o fod ymhlyg – eu 'dal'.

Defnyddir amrywiaeth o strategaethau addysgu i ysgogi'r rhai sy'n dysgu'n bennaf drwy sianeli geiriol a'r rhai sy'n well ganddyn nhw ddull dysgu mwy gweledol neu ginesthetig. Wrth gwrs, bydd llawer o'r dysgu'n digwydd yn ystod gweithgareddau drwy brofiadau, oherwydd mae datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn golygu ymgysylltu'r galon yn ogystal â'r pen. Mae nifer o'r cyfleoedd dysgu awgrymedig yn archwiliadol ac yn benagored er mwyn adlewyrchu natur llawer iawn o'r maes pwnc. Anogir disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, ac ymholi gyda'i gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn cael dealltwriaeth ddyfnach a mwy ystyrlon o'r materion cymhleth sy'n gysylltiedig â datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Hefyd, fe'u hanogir i ddysgu drwy gymryd rhan mewn grwpiau o wahanol faint, a datrys problemau gyda'i gilydd.

Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd gofyn i ymarferwyr/athrawon gysylltu maes pwnc y sesiynau ystafell ddosbarth nid yn unig â gwasanaeth/amser cylch y Cyfnod Sylfaen, ond hefyd â phrofiadau diweddar, diriaethol – disgybl cylch chwarae a aeth i nôl oedolyn pan sylweddolodd fod disgybl newydd yn gofidio, er enghraifft, neu ddigwyddiad yn yr iard chwarae neu anghydfod yn y dosbarth. Fel arfer bydd stori neu wrthrych personol yn sicr o ennyn diddordeb y disgyblion.

Patrwm y sesiynau addysgu

Mae sesiynau wedi cael eu cyflwyno'n fwrriadol fel cyfres o gyfleoedd dysgu hyblyg, cysylltiedig, er mwyn caniatáu ar gyfer amrywiaeth o ddulliau dysgu ac addysgu.

Mae sawl ymagwedd sy'n addas ar gyfer hyrwyddo gwaith ACEDd. Un sy'n gyfarwydd i nifer o ymarferwyr/athrawon, ac a allai fod wedi'i sefydlu eisoes o fewn y lleoliad/ysgol, yw amser cylch. Rhoddir syniadau ar gyfer gemau a rowndiau cylch ar gyfer pob thema. Fe'u defnyddir fel ymarferion cynhesu i greu hinsawdd lle mae'r disgyblion yn teimlo'n rhydd i rannu teimladau a phrofiadau. Mae canllawiau ar weithredu amser cylch i'w cael gan Gydlynwyr Cynlluniau Ysgolion lach neu yn Saesneg yn www.circle-time.co.uk

Ar ôl y syniadau ar gyfer amser cylch daw'r cyfleoedd dysgu i gyfateb â'r deilliannau dysgu a fwriedir yn y thema. Maen nhw'n cynnwys rhai a fyddai'n addas i'w defnyddio gyda'r dosbarth cyfan a rhai y gallai'r disgyblion gymryd rhan ynddyn nhw'n annibynnol, mewn parau, grwpiau bach neu'n unigol. Mae'r symbolau yn y deunyddiau yn nodi p'un o'r rhain sy'n gymwys.

Dosbarth cyfan  Parau  Grŵp bach  Unigolyn 

Wrth gynllunio eu haddysgu, bydd gofyn i ymarferwyr/athrawon ddefnyddio syniadau ar gyfer gwaith dosbarth cyfan, gwaith grŵp neu waith unigol er mwyn sicrhau cydbwysedd, fel y bydden nhw ar gyfer unrhyw wers arall.

Mae rhai enghreifftiau o sut maen nhw wedi cynllunio eu gwersi fel hyn i'w gweld yn Ffigurau 4 a 5.

Ffigur 3

Cynllunio ACEDd Cymru: Blwyddyn 5 Cyd-dynnu a chweryla						
Diwrnod	Gweithgareddau dosbarth cyfan	Gweithgareddau grŵp gyda gwahaniaethu os oes angen	Adnoddau	Sesiwn gloi	Prif ddeilliannau dysgu	Gwerthuso
12 Tach 40 munud	1. Defnyddio'r gêm gylch 'Storm Daranau' fel ymarfer cynhesu 2. Dangos saith llun o'r set i ddangos y gwahanol deimladau a restrir ar dudalen gyntaf y set Werdd. Gwahodd disgyblion i gynnig syniadau ynghylch pa deimladau allai gael eu dangos – eu hysgrifennu ar y bwrdd. 3. Esbonio'r dasg llinell deimladau – llunio fy llinell ddiacter fy hun. 10 munud.	1. Rhannu'r dosbarth yn saith grŵp – rhyw gymysg. Atgoffa'r dosbarth am ein rheolau ar gyfer cydweithio fel grŵp. 2. Rhoi llun i bob grŵp yn dangos y teimlad y mae angen iddyn nhw ei ddefnyddio. Pwysleisio bod rhaid iddyn nhw gwblhau'r gweithgaredd heb siarad. 3. HK i weithio gyda grŵp MH a rhoi'r llun diacter iddyn nhw oherwydd mae MH eisoes wedi gwneud gwaith ar hyn. 5 munud. Gwirio bod LI a SP yn deall y dasg a'u cynnwys yn y grŵp gyda disgyblion sy'n gallu mynegi eu syniadau'n glir. 4. Y grŵp yn cymharu eu llinellau ac yn dewis llefarydd i roi adborth i'r dosbarth. 10 munud. 5. Adborth i'r dosbarth. 10 munud.	1. Set Werdd, Thema 2: Blwyddyn 5 2. Saith llun o'r set. 3. Papur plaen a chreonau lliw.	1. Siarad am y gwahaniaeth rhwng llinellau sy'n dangos yr un teimlad. 2. Trafod pam roedd rhai llinellau yn haws i ni eu dyfalu.	Gwella ein gallu i labelu teimlad. Gallu mynegi beth yw gwahanol deimladau. Cydweithio ag eraill.	1. Wedi penderfynu y gallai'r disgyblion ddefnyddio mwy nag un lliw ar eu llinellau – coch a du wedi'u defnyddio ar y llinellau diacter. 2. Gofynnodd y disgyblion a allen nhw ddyfalu'r teimlad yn llinell pob grŵp. Wedi gweithio'n dda a'i ddefnyddio yn y sesiwn gloi. 3. Arddangos y llinellau gyda nodyn gludog dros y gair 'teimlad'. Gweld a all disgyblion eraill ddyfalu'r teimlad yn y llun. Ei roi ar y bwrdd ACEDd.

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r disgyblion.

- Sut gallwn wella'r amser y mae pob un ohonom yn symud?
- Sut deimlad oedd helpu eraill?
- Sut deimlad oedd cael help?

Rowndiau

Pan fyddai'n helpu pobl eraill dwi'n teimlo'n ...

Pan fydd pobl eraill yn fy helpu i ddiw'n teimlo'n ...

* Mae fy ffrindiau yn arbennig i fi oherwydd ...

Credaf ei bod yn annheg pan fydd ... (20 munud)

Hoffwn ...

Cyfleoedd dysgu: rhinweddau allweddol mewn ffrind

Deilliant dysgu bwriedig

Dwi'n gallu nodi sawl ffordd o roi 'tocynnau cyfeillgarwch' i bobl eraill.



Yn y dosbarth, ailbwysleisiwch yr hyn sy'n gwneud ffrind da. Efallai y byddwch am ddefnyddio rhai o'r *cardiau llun 'cyfeillgarwch'* o'r Ffeil adnoddau ysgol gyfan. Pa rinweddau rydym yn chwilio amdany'n nhw yn ein ffrindiau, a beth rydym yn ei gynnig i ffrindiau? Atgoffwch y disgyblion o stori'r gwasanaeth a sut roedd pobl yn y stori yn rhoi tocynnau cyfeillgarwch i'w gilydd. A yw'r un pethau yn bwysig mewn ffrind nawr eich bod ym Mlwyddyn 4 ag oedd yn bwysig yn y dosbarth Derbyn – ydyn ni'n defnyddio'r un mathau o docynnau cyfeillgarwch?

gwneud mewn grwpiau o 3 (10 munud)



Gofynnwch i barau neu ddisgyblion unigol gynhyrchu stori neu strïbed comig, chwarae rôl neu siarad am sut y bu un o'r rhinweddau a nodwyd ganddyn nhw'n bwysig iddyn nhw yn y gorffennol, neu sut y gallai fod yn bwysig mewn sefyllfa ffuglennol. Beth yw'r tocyn cyfeillgarwch gorau y maen nhw erioed wedi'i gael neu wedi'i roi?

Sesiwn glöi Dewis 2 grŵp i berfformio. Trafod

pa nodweddion a ddangosir.



Neu gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu cerdd neu stori gan ddefnyddio un o'r rhinweddau fel teitl. *Roedd un grŵp wedi dewis y thema bulio - bydd angen mwy o drafod ynghylch pryd i gynnwys oedolyn.*

Gwerthuso

Cyfleoedd dysgu: deall dicter

Deilliannau dysgu bwriedig

Dwi'n deall pam ei bod yn bwysig ymdawelu cyn i deimladau o ddieter fynd yn drech na fi.

Dwi'n gallu nodi ffyrdd y gallaf atal fy hun rhag gadael i deimladau o ddieter fynd yn drech na fi.

Dwi'n gwybod sut deimlad yw gadael i deimladau o ddieter fynd yn drech na fi.

15 Tachwedd

1. Gwneud hyn fel Amser Cylch.

2. Copio syniadau'r disgyblion a thrafod sut mae'r rhain yn dangos nodweddion arbennig.

3. Symud ymlaen i drafod y nodweddion allweddol, isod

Roedd gennym ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a oedd yn ei chael hi'n anodd ymdrin â'r syniad haniaethol o docynnau cyfeillgarwch. Daethon ni o hyd i ffordd i wneud y cysyniad yn fwy cadarn drwy chwistrellu paent aur ar fotymau a rhoi pum botwm i bob disgybl i'w rhoi fel tocynnau cyfeillgarwch – er enghraifft, pan oedd rhywun yn gwneud rhywbeth caredig iddyn nhw a'u bod am ddweud diolch. Gwnaethon ni'n siŵr ein bod yn ychwanegu at y cyflenwad fel bod gan bawb bum tocyn bob amser. Gallai'r disgyblion weld po fwyaf oedd yn cael eu rhoi allan, y mwyaf oedd yn y dosbarth.



Mae nifer o'r sesiynau ystafell ddosbarth a awgrymir yn cynnwys her grŵp – gweithgaredd wedi'i amseru i grwpiau bach gyda chynnyrch neu ganlyniad wedi'i ddiffinio'n benodol.

Mae'r holl ddeunyddiau yn cynnwys cyfres o gwestiynau i hyrwyddo myfyrio ac ymholi.

Mae'r cwestiynau ar gyfer ymholi a myfyrio yn benagored: hyd yn oed os oes gan athrawon syniad pendant ynghylch beth allai fod yr ateb, dylen nhw annog disgyblion i fynegi eu safbwyntiau eu hunain a darparu tystiolaeth ac enghreifftiau i'w cefnogi.

Gellir defnyddio'r cwestiynau mewn ffyrdd gwahanol ond i gychwyn efallai yr hoffai'r athro/athrawes gynnal ymholiad grŵp (ceir manylion am yr ymagwedd hon yn Saesneg yn www.sapere.net). Mewn ymholiad grŵp go iawn bydd disgybl neu grŵp bach o ddisgyblion yn dewis y cwestiynau yr hoffon nhw eu trafod – ac oherwydd y gall hyn fod yn anodd iddyn nhw i ddechrau, mae'r deunyddiau yn cynnig rhai cwestiynau fel manau cychwyn. Bydd yr athro/athrawes yn ysgrifennu'r rhain (neu syniadau'r disgyblion eu hunain ar gyfer cwestiynau) ar y bwrdd gwyn neu'r siart troi ac yn hwyluso trafodaeth sy'n cynnwys y grŵp cyfan. Bydd yr athro/athrawes yn eu helpu i feddwl yn ddyfnach am y materion dan sylw, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn deall yr eirfa a darparu enghreifftiau a thystiolaeth ar gyfer eu safbwyntiau.

Mae'r ymagwedd 'meddwl, paru, rhannu' yn ddefnyddiol hefyd. Yn dilyn ychydig o fyfrio unigol, bydd disgyblion yn gweithio mewn paru i drafod beth maen nhw'n teimlo yw'r materion allweddol o fewn y cwestiwn a beth allai fod yr ateb. Yna bydd pob grŵp yn paru â phâr arall i rannu eu syniadau a thrafod y cwestiwn ymhellach, cyn rhannu eu safbwynt gyda'r grŵp cyfan.

Yn Elfennau 1 a 2 o'r Cyfnod Sylfaen bwriedir i'r cwestiynau ar gyfer myfyrio ac ymholi gael eu defnyddio tra bydd yr oedolion yn gweithio gyda'r plant yn y lleoliad/ysgol. Gallai cwestiynau eraill gael eu hychwanegu a gallen nhw gael eu gosod ar y wal fel symbyliad.

Bydd angen ystyriaeth arbennig ar sut i gynnwys plant sydd yng nghanau cynnar dysgu iaith, naill ai Gymraeg neu Saesneg yn y cwestiynau ar gyfer myfyrio ac ymholi. Mae'r iaith dan sylw, megis yr amodol ('gallai/byddai/dylai') a chyffredinol haniaethol, yn debygol o fod yn arbennig o anodd iddyn nhw. Gall fod yn ddefnyddiol i ddechrau pob myfyrio ac ymholi drwy gyfeirio yn ôl at sefyllfa go iawn y maen nhw eisoes wedi eu profi gyda'i gilydd.

Ar ôl y cwestiynau ar gyfer myfyrio ac ymholi ceir awgrymiadau ar gyfer adolygu a gwerthuso gan ddisgyblion. Gallai'r rhain ffurfio sesiwn gloi, gan dynnu allan y prif bwyntiau dysgu, sicrhau dealltwriaeth a gofyn y cwestiwn – ydy'r deilliannau dysgu disgwylidig wedi cael eu bodloni? Hefyd bydd yn briodol yn aml i orffen ar nodyn cadarnhaol drwy ofyn i'r plant wneud datganiad personol am rywbeth y byddan/gallan nhw ei wneud o ganlyniad i gyflawni'r deilliant dysgu.

Ar ddechrau unrhyw sesiwn addysgu, awgrymir bod athrawon yn siarad â'r plant am y deilliannau dysgu disgwyledig ar gyfer y sesiwn (beth fyddan nhw'n ei ddysgu, wedi'i fynegi mewn iaith sy'n hawdd i blant ei deall), a llunio meini prawf llwyddiant gyda'i gilydd – sut byddan nhw'n gwybod os ydyn nhw wedi cyflawni'r deilliant a fwriedir. Er enghraifft, os mai'r deilliant dysgu disgwyledig yw 'cael nifer o strategaethau ar gyfer gwneud i bobl eraill deimlo'n dda', gallai'r dosbarth gytuno, 'Byddwn ni'n gwybod ein bod wedi llwyddo os gallwn ni restru tair ffordd y gallwn ni wneud hyn'.


Defnyddio'r deunyddiau yn y Cyfnod Sylfaen

Bwriedir i'r deunyddiau cwricwlaidd ACEDd Cymru gael eu defnyddio ar draws yr ysgol gyfan, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen. Bwriedir iddyn nhw gefnogi elfennau pwysig o Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol fel y'u disgrifir yn *Y Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. Dylen nhw ddarparu ar gyfer dilyniant a chysondeb gyda dysgu cymdeithasol ac emosiynol plant 3 i 7 oed yn defnyddio Elfennau 1 in 4 yn y set Las.

Mae'r deunyddiau cwricwlaidd cyfan yn cydnabod y bydd plant yn dysgu am sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol trwy'r diwrnod ysgol a bod hinsawdd ac amgylchedd y lleoliad/ysgol yn hanfodol ar gyfer dysgu effeithiol. Felly mae'r deunyddiau yn defnyddio nifer o ymagweddau (Ffigur 5) sydd wedi'u cydgysylltu ac yn cefnogi dysgu a datblygiad plant mewn ffordd gyfannol:

1. datblygu'r amgylchedd dysgu
2. datblygu'r ethos a'r arferion i gefnogi'r agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu ar draws pob maes y cwricwlwm
3. cynllunio cyfleoedd dysgu ac addysgu sy'n datblygu sgiliau penodol.

Ffigur 5



Nid yw'r deunyddiau yn rhagnodol ond yn hytrach yn darparu syniadau amrywiol a allai fod yn ddefnyddiol wrth hyrwyddo'r agweddau ar ddysgu sy'n dod i'r amlwg mewn thema arbennig. Yn deunyddiau'r Cyfnod Sylfaen (y setiau Glas) mae'r math o ddysgu ac addysgu wedi'i nodi yn y ffordd ganlynol, i helpu gyda gwaith cynllunio ymarferwyr/athrawon.



- Dan arweiniad oedolion – pan fydd iaith a syniadau'n cael eu cyflwyno'n benodol a'u datblygu gan yr ymarferydd.



- Dan arweiniad plentyn – pan fydd y plant yn ysgogi'r dysgu, gyda chymorth addasiadau i'r amgylchedd dysgu a rhyngweithio cymdeithasol sy'n hyrwyddo llwybrau penodol o archwilio a thrafod.

Diwylliant, crefydd, rhyw a gwahaniaethau unigol eraill

Mae'n bwysig trin pob disgybl fel unigolion a pheidio â rhagdybio unrhyw beth oherwydd mae amrywiaeth yn digwydd o fewn yn ogystal ag ar draws grwpiau diwylliannol. Gall hyn fod mewn cysylltiad â phriodoldeb gwahanol fathau o ymddygiad, annog neu berswadio disgyblion i beidio â mynegi emosiynau arbennig ac ystyried yr hyn a olygir wrth le personol.

Er enghraifft, mewn rhai diwylliannau mae cyswllt llygaid uniongyrchol rhwng person ifanc ac aelod hŷn o gymdeithas yn anghwrtais iawn. Wrth drafod mynegiannau'r wyneb sy'n cyfleu emosiynau, bydd rhaid i athrawon fod yn sensitif i faterion o'r fath.

Bydd rhaid i athrawon fod yn ymwybodol o ddylanwad diwylliant, crefydd, rhyw a gwahaniaethau unigol eraill wrth ddefnyddio'r gweithgareddau yn yr adnoddau hyn. (Rhaid ystyried bod amrywiaeth rhwng diwylliannau.)

Er nad yw unrhyw athro/athrawes yn debygol o fod yn arbenigwr ar bob confensiwn a disgwyliadau'r holl ddiwylliannau a gynrychiolir o fewn cymuned, mae'n bwysig bod materion o'r fath yn cael eu codi a'u trin yn sensitif.

Nid yw'n anodd cael hyd i enghreifftiau o normau diwylliannol gwahanol a allai effeithio ar y gwaith o ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mewn rhai diwylliannau sy'n rhoi gwerth mawr ar y gymuned a rôl gweithredu er lles pawb, gall rhai o gynseiliau sylfaenol Thema 4 *Mynd amdani!* gael eu hystyried yn rhai sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac felly'n groes i'r hyn y bydd disgyblion o'r diwylliannau hyn yn ei ddysgu efallai o fewn y teulu neu'r gymuned.

Enghraifft arall bosibl yw'r gwaith o fewn Thema 5 *Hoffi fi fy hun* ar y teimlad cadarnhaol 'balch', a all fod yn groes i greddau rhai diwylliannau neu grefyddau sy'n ystyried bod balchder yn bechod.



Mae'n rhaid i ddisgyblion wybod ei bod hi'n ddiogel ac yn briodol (yn wir, yn werthfawr) i ddweud, 'Yn fy nghartref i rydym ni/roeddem ni'n ei wneud e fel hyn ...', neu 'Pe byddwn i wedi gwneud hynny, byddai fy rhieni yn meddwl ...'. O fewn amgylchedd diogel sy'n gwerthfawrogi ac yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol, mae'n bwysig bod athrawon yn cael hyd i ffyrdd o wybod ble mae'r gwahaniaeth, ac yn dangos diddordeb a pharch.

Un agwedd ar wahaniaeth diwylliannol y bydd rhaid i bob disgybl ei deall yw ymddygiad priodol rhwng cyd-destunau – er enghraifft, yr iard chwarae o'i gyferbynnu â'r lleoliad/ysgol. Bydd y gweithgareddau i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn cefnogi athrawon drwy sicrhau bod disgyblion yn deall bod rhai mathau o ymddygiad yn briodol mewn rhai cyd-destunau, ond yn hollol annerbyniol mewn cyd-destunau eraill, ac adnabod y sefyllfaoedd hynny.

Bydd disgyblion ag ADY neu anableddau yn cael profiadau gwahanol o ddysgu cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Bydd gan y rhai sydd â nam ar y synhwyrau, er enghraifft, ffyrdd arbennig o adnabod a deall emosiynau pobl eraill, a rhaid cydnabod hyn a'i werthfawrogi wrth drafod mynegiannau'r wyneb, iaith y corff a thôn y llais. Bydd hunanymwybyddiaeth, rheoli teimladau ac empathi yn arbennig o anodd i ddisgyblion sydd ar y sbectrwm awtistig, felly bydd angen i'r athrawon sy'n gweithio â nhw osgoi disgwyliadau amhriodol. I'r rhai sydd ag anawsterau dysgu difrifol neu ddwys a lluosog, gall athrawon ddefnyddio'r canllawiau a ddarperir yn www.cymru.gov.uk/addysgbersonolachymdeithasol Efallai y bydd rhaid iddyn nhw gynllunio ffyrdd o ddarparu profiadau synhwyraidd i ddisgyblion sydd wedi'u cysylltu â ffocws yr ysgol gyfan – er enghraifft, bag o wrthrychau sy'n ymwneud â digwyddiadau allweddol mewn stori a gyflwynwyd i'r disgyblion. Er mwyn sicrhau mynediad, gallai athrawon a chynorthwyrwyr addysgu ddefnyddio meddalwedd symbolau i gefnogi gwasanaethau a'r storïau a ddefnyddir yn y dosbarth.

Gyda sgaffaldio priodol o'r fath bydd disgyblion ag ystod o ADY yn debygol o gael budd sylweddol o addysgu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a'r cyfleoedd ar gyfer arferion â chymorth a chyffredinol.

Efallai y bydd angen cymorth arbennig ar ddisgyblion sy'n dysgu iaith. Gall hyn gynnwys ciwiau gweledol, ailadrodd patrymau iaith, adrannau gyda mynegbyst clir at gynydd y wers a chyfleoedd a strwythurau i rannu'r wybodaeth a'r profiadau sydd ganddyn nhw. Gall sefyllfaoedd lle na allan nhw gymryd rhan a chyflawni oherwydd bod llwyddiant yn hollol ddibynnol ar fod yn rhugl yn yr iaith fod yn ergyd arbennig o drom i'w hyder, ac felly i ddatblygu'r sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol y mae deunyddiau ACEDd Cymru yn ceisio eu hyrwyddo.

Bydd rhaid i athrawon ystyried yn ofalus sut i adnabod y grwpiau gorau ar gyfer dysgwyr iaith yn ôl y dasg a'r deilliannau dysgu, gan sicrhau, er enghraifft, delfrydau ymddwyn iaith da, delfrydau ymddwyn ymddygiad/rhyngweithio da, a chyfleoedd i siarad eu mamiaith. Hefyd, bydd rhaid i athrawon fod yn ymwybodol o anghenion disgyblion sydd newydd gyrraedd y wlad, sydd efallai heb brofi rhai o'r dulliau dysgu sy'n gyffredin yn ein hysgolion, megis dysgu drwy chwarae, dysgu cydweithredol, rhoi cynnig ar syniadau a dysgu drwy ddarganfod.

Trwy'r deunyddiau ceir enghreifftiau o sut mae athrawon wedi sgaffaldio dysgu disgyblion ag ADY neu anawsterau iaith, neu ddisgyblion o wahanol ddiwylliannau. Nid ydyn nhw'n gynhwysfawr, ond mae'n ymgais i ddarparu patrwm ar gyfer anodiadau cynllunio'r athrawon eu hunain.

Mae bechgyn a merched yn debygol o ymateb yn wahanol i rai o'r gweithgareddau, a gall gwahanol feysydd fod yn fwy neu'n llai anodd iddyn nhw. Bydd rhaid i athrawon fod yn sensitif i'r gwahaniaethau posibl hyn, ac i'r ffaith fod mynegi emosiwn, siarad am deimladau a chael eich gweld yn rhywun sy'n cydymdeimlo yn dueddol o gael eu hystyried yn nodweddion benywaidd, ac o ganlyniad gall bechgyn eu gwrthod yn hytrach na wynebu'r risg o gael eu gwawdio gan gyfoedion a'u beirniadu gartref. Bydd rhaid i athrawon fod yn ymwybodol o'r materion hyn yn ystod y camau cynllunio a chyflwyno a byddai'n ddefnyddiol i leoliadau ac ysgolion ddatblygu ymateb cyson iddyn nhw. Mae delfrydau ymddwyn gwrywaidd cadarnhaol yn ffynhonnell ddefnyddiol o osgoi ymatebion o'r fath, a dylai enghreifftiau ar gyfer sefyllfaoedd, storïau a chwarae rôl, lle bynnag y bo'n bosibl, gynnal diddordeb a chymell bechgyn.

Sicrhau cynhwysiant

Gall ymarferwyr/athrawon a rheolwyr sicrhau bod yr adnoddau ACEDd Cymru yn cynorthwyo'r lleoliad/ysgol i fodloni agweddau ar y datganiad 'Cynnwys pob dysgwr' (i'w weld ar dudalen flaen pob Gorchymyn pwnc a fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol) ac yn cydymffurfio â pholisïau cydraddoldeb a gwrth-fwlio'r lleoliad/ysgol, trwy:

- fynd i'r afael yn benodol â materion perthnasol trwy'r gwasanaethau, y cyfleoedd dysgu a ddarperir o fewn y sesiynau i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a gwaith ffurfiol neu anffurfiol cysylltiedig sy'n seiliedig ar y cwricwlwm, er enghraifft:
 - annog disgyblion i adnabod, deall, dathlu a pharchu'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng pobl
 - herio pob math o stereoteipio, rhagfarn a bwlio
 - defnyddio dulliau addysgu o fewn y lleoliad/ysgol sy'n sicrhau bod pob disgybl yn teimlo ei fod yn ddiogel i gyfrannu a bod ei gyfraniad yn cael ei werthfawrogi
- sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael eu darparu ar eu cyfer wrth gyflwyno'r cwricwlwm ysgol a bod y cwricwlwm yn hygyrch i bawb, er enghraifft:
 - defnyddio ystod o ymagweddau addysgu i sicrhau bod disgyblion yn dysgu'r mwyaf posibl gan ddefnyddio dulliau dysgu gwahanol
 - sicrhau bod y maes pwnc yn adeiladu ar brofiadau diwylliannol a diddordebau diwylliannol pob disgybl
 - defnyddio deunyddiau sy'n dangos delweddau cadarnhaol o hil, crefydd, rhyw, anabledd a chyfeiriadedd rhywiol
 - sicrhau bod disgyblion â lefel uchel o symudedd, absenoldeb neu anghenion dysgu ychwanegol (gan gynnwys y rhai y mae eu dealltwriaeth yn fwy datblygedig na'u galluoedd iaith) yn gallu defnyddio'r deunyddiau
 - adeiladu ar ieithoedd cymunedol.

Mae cymuned lle mae sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu hystyried yn bwysig a lle bydd disgyblion yn ymarfer y sgiliau hyn yn creu amgylchedd gofalgarn yn seiliedig ar empathi a gwerthfawrogi gwahaniaeth unigol. Mae hyn yn hanfodol os yw'r lleoliad/ysgol am fod yn amgylchedd dysgu cynhwysol sy'n gwrthwynebu pob math o wahaniaethu.

Asesu cynnydd disgyblion

Nid oes unrhyw drefniadau ffurfiol yn yr adnoddau hyn ar gyfer asesu cynnydd disgyblion unigol mewn datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. O fewn pob trosolwg o'r thema, fodd bynnag, ceir disgrifiadau ar gyfer pob grŵp oedran o'r hyn y bydd disgyblion yn ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud ar ôl iddyn nhw gwblhau'r gwaith ar y thema yn llwyddiannus. I blant yn y Cyfnod Sylfaen bydd y disgrifiadau hyn yn cyfrannu at asesuadau o gynnydd o fewn y Maes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol fel y'i disgrifir yn *Y Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*. I ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y disgrifiadau yn cyfrannu at y farn y bydd athrawon yn ei llunio am gynnydd disgyblion o fewn ABCh.

Caiff ymarferwyr/athrawon eu hannog i rannu deilliannau dysgu disgwylidig clir a thrwy gydweithio â'r disgyblion, llunio feini prawf llwyddiant i brofi a yw'r rhain wedi cael eu bodloni ar ddechrau pob sesiwn ac ym mhob sesiwn gloi. Felly mae asesu a monitro'r hyn y bydd y disgyblion yn ei ddysgu yn broses barhaus a ffurfiannol. Yn y modd hwn bydd disgyblion yn gwybod eu bod yn gwneud cynnydd wrth ddatblygu sgiliau pwysig. Byddan nhw ac eraill yn dysgu sut i werthfawrogi a dathlu eu cyflawniadau yn y maes hwn yn ogystal â meysydd gwaith mwy academaidd.

Yn amlwg, os yw disgybl yn cael anhawster mawr i wneud cynnydd gyda'i ddysgu cymdeithasol ac emosiynol, er gwaethaf amgylchedd a chyfleoedd dysgu priodol, byddai trefniadau arferol y lleoliad/ysgol ar gyfer adnabod pryderon yn cael eu dilyn.

Monitro a gwerthuso effaith

Efallai yr hoffai lleoliadau ac ysgolion ystyried sut byddan nhw'n monitro ac yn gwerthuso effaith defnyddio'r ymagwedd gwricwlaidd a awgrymir yn y deunyddiau hyn. Efallai yr hoffon nhw ddefnyddio rhyw fath o fesurau 'cyn' ac 'ar ôl' ar gyfer ymddygiad disgyblion a'r hyn y maen nhw'n ei ddysgu, neu werthuso pa effaith y gallai'r gwaith fod wedi'i chael ar les staff, neu naws yr ystafell ddosbarth a'r lleoliad/ysgol. Mae rhai offer ar gyfer gwaith monitro a gwerthuso o'r fath ar gael, ac fe'u rhestrir yn Atodiad 3.

Cyffredinol i'r hyn a ddysgir

Ni fyddai llawer o werth yn cael ei ddysgu pe byddai'r ffocws ar yr agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu o fewn lleoliad/ysgol wedi'i gyfyngu i wasanaeth/amser cylch achlysurol yn y Cyfnod Sylfaen ac ychydig o sesiynau dilynol. Mae'n hanfodol nad yw'r hyn a ddysgwyd yn cael ei glymu i sefyllfaoedd penodol ond yn hytrach yn cael ei gyffredinoli i gyd-destunau gwahanol. Dangoswyd yn glir bod yn rhaid i ddisgyblion ymarfer sgiliau sydd newydd eu dysgu.

Mae cyfleoedd o fewn pob thema yn ceisio darparu'r gwaith arferol, rheolaidd a rhagweladwy sydd ei angen i ddatblygu sgiliau penodol ar draws y cwricwlwm, ac atgyfnerthu'r sgiliau hyn drwy brofiadau bywyd disgyblion ar draws yr ysgol gyfan. I helpu disgyblion i gyffredinoli i sefyllfaoedd go iawn, gallai athrawon ystyried y canlynol:

- gosod cwestiynau sy'n codi o wasanaeth/amser cylch y Cyfnod Sylfaen o gwmpas y lleoliad/ysgol gyda chyfleoedd i ddisgyblion/rhieni/staff ychwanegu eu syniadau – gellid eu rhannu yn y gwasanaeth 'ailymweld' terfynol
- sicrhau bod yr holl staff yn y lleoliad/ysgol yn cyfeirio'n aml at y strategaeth ymdawelu neu ddatrys problemau, er enghraifft, gan annog y defnydd o'r strategaethau hyn a chanmol fel y bo'n briodol
- fel oedolion, modelu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a'r strategaethau ymdawelu/datrys problemau/proses adnabod teimladau, ac ati – gall ddweud y broses yn uchel fod yn arbennig o effeithiol ar gyfer modelu (unwaith eto, gan roi sylw priodol i oedran y disgyblion)
- gwyllo'n gyson am enghreifftiau pan fydd disgyblion yn defnyddio sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a thynnu sylw atyn nhw pan ddigwyddan nhw (fel y bo'n briodol i'w hoedran – 'Mae Shahnaz yn rhannu ei phennau gel gyda Lloyd; roedd hi'n gwybod ei fod e'n teimlo'n drist')
- defnyddio'r strategaethau allweddol a addysgir trwy'r adnoddau trwy gydol y dydd ar gyfer digwyddiadau sy'n codi yn yr ystafell ddosbarth neu'r iard chwarae (er enghraifft, datrys problemau neu 'ddatrys problemau yn heddychlon' ar gyfer datrys gwrthdaro)
- cyfeirio'n aml at bosteri a chymhorthion gweledol sydd wedi'u harddangos yn y lleoliad/ysgol
- arddangos ffocws unrhyw drefn sydd gan y lleoliad/ysgol gyfan ar gyfer sylwi ar gyflawniad a'i ddathlu yn nerbynfa, neuadd ginio, ac ati y lleoliad/ysgol
- annog oedolion i gyfeirio at sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol trwy gydol y dydd ac annog disgyblion i feddwl pa mor dda y maen nhw wedi gweithio a chwarae gyda'i gilydd.

Defnyddio'r deunyddiau yn yr ystafell ddosbarth

Mae'r deunyddiau a ddarperir yn ddetholiad o gyfleoedd dysgu ar gyfer cyflawni deilliannau dysgu penodol i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Fe'u defnyddir yn hyblyg yn unol â'r cynllun strategol a fabwysiadwyd gan y lleoliad/ysgol gyfan. Gellir eu 'dewis a'u cymysgu' i ategu cynllun sy'n bod, yn eu ffurf bresennol, neu fel cyfres o fannau cychwyn i ysgogi gwaith pellach yn y maes.

Os yw'r deunyddiau'n cael eu defnyddio yn eu ffurf bresennol, gan ddilyn gwasanaeth/amser cylch y Cyfnod Sylfaen sy'n lansio'r thema, bydd angen i ymarferwyr/athrawon gyfeirio at:

- y trosolwg o'r thema (sy'n cynnwys y deilliannau a ddisgwylir ar gyfer y disgyblion)
- y set gweithgareddau perthnasol (mae pedwar set ym mhob thema, gyda chodau lliw yn ôl cyfnod neu grŵp blwyddyn y disgyblion) sy'n disgrifio syniadau ar gyfer datblygu'r thema trwy'r cwricwlwm
- awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau dilynol.

Hefyd, bydd yn ddefnyddiol i ymarferwyr ac athrawon gael wrth law adnoddau a phosteri y gellir eu llungopïo o'r Ffeil adnoddau ysgol gyfan, sy'n cynnwys:

- *Ydyn ni'n barod am amser cylch?* – poster i ategu'r defnydd effeithiol o amser cylch
- *Ditectif teimladau* – poster i'w arddangos ym mhob ystafell ddosbarth, sy'n dangos proses y gall y disgyblion ei dilyn i adnabod ac enwi teimlad y maen nhw neu eraill yn ei brofi
- *Datrys problemau* – poster i'w arddangos ym mhob ystafell ddosbarth, sy'n helpu disgyblion i oedi a meddwl am ffordd arall o weithredu pan fydd problem yn codi rhwng pobl
- *Datrys problemau'n heddychlon* – poster i'w arddangos ym mhob ystafell ddosbarth, sy'n helpu disgyblion i ddatrys gwrthdaro
- *Sut i ymdawelu* – taflen adnoddau
- *Baromedr emosiynau* – templed y gellir ei lungopïo, wedi'i lunio er mwyn i ddisgyblion allu mynegi cryfder teimlad arbennig, ac effaith rhyngweithio ar eu 'tymheredd' emosiynol eu hunain
- *Gwyntyll teimladau* – templed y gellir ei lungopïo, wedi'i lunio er mwyn i ddisgyblion allu dangos teimlad y maen nhw (neu gymeriadau yn y storïau a'r senarios yn y deunyddiau) yn ei brofi
- *Rhestrau gwirio hunanadolygu ar gyfer cydweithio* – i gefnogi gwaith grŵp effeithiol.

Cyflwynir y disgyblion i'r strategaethau a'r offer hyn yn Thema 1 *Dechrau newydd* a Thema 2 *Cyd-dynnu a chweryla*.

Bydd angen cyflwyno disgyblion a staff newydd i rai neu bob un o'r strategaethau a'r offer hyn.

Yn olaf, bydd yn rhaid i bawb sy'n defnyddio deunyddiau ACEDd Cymru fod yn ymwybodol o'r canllawiau ar addysgu materion sensitif yn Atodiad 2 (tudalen 41).

Atodiad 1: Egwyddorion a nodweddion rhaglenni ACEDd effeithiol¹

Egwyddorion cyffredinol: sicrhau effeithiolrwydd rhaglenni ACEDd

- Rhoi blaenoriaeth uchel i waith ar gymhwysedd a lles emosiynol a chymdeithasol.
- Cysylltu gwaith ar broblemau ymddygiadol ac emosiynol â gwaith ar gymhwysedd a lles emosiynol a chymdeithasol.
- Mabwysiadu ymagwedd gyfannol.
- Sicrhau cydlyniaeth, gwaith tîm ac ymagwedd aml-broffesiynol.
- Cynnwys rhieni/warcheidwaid a chymunedau.
- Dechrau'n gynnar, targedu'n gynnar a mabwysiadu ymagwedd hirdymor, ddatblygiadol.
- Creu a chefnogi amgylcheddau sy'n hyrwyddo cymhwysedd a lles emosiynol a chymdeithasol.

Nodweddion penodol rhaglenni ar gyfer addysgu a dysgu sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol

Dylai rhaglenni:

- ddarparu cyfleoedd dysgu gyda ffocws benodol ar sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol
- sicrhau cyfleoedd dysgu lle mae modd cyfrannu, dysgu drwy brofiadau a grymuso
- mabwysiadu ymagwedd cam wrth gam gyda chyfleoedd ar gyfer ailymweld â sgiliau ac adeiladu arnyn nhw mewn ffordd ddatblygiadol briodol
- helpu dysgwyr i gyffredinoli i fywyd go iawn
- defnyddio agwedd gadarnhaol
- defnyddio dulliau gweithredol
- defnyddio amser cylch a chyfarfodydd ar gyfer y dosbarth cyfan
- defnyddio gwaith grŵp cydweithredol ac addysg cyfoedion
- sicrhau cysondeb â gweddill yr ysgol
- datblygu rhaglenni thematig sy'n cysylltu â'r rhaglen generig.

¹ Daw'r crynodeb ymchwil hwn o *What works in developing children's emotional and social competence and well-being?* Adroddiad ymchwil DfES 456 (2003) gan Katherine Weare a Gay Gray, The Health Education Unit, Research and Graduate School of Education, Southampton University.

Atodiad 2: Addysgu materion sensitif

Mae dysgu drwy brofiadau bywyd yn ganolog i ddatblygiad personol a chymdeithasol. Trwy gyflwyno rhaglenni ABCh eang, cytbwys a pherthnasol, bydd cyfleoedd naturiol i ddysgwyr ystyried materion sensitif yn codi'n naturiol. Trwy archwilio materion o'r fath, bydd disgyblion yn datblygu sgiliau rhyngpersonol megis:

- gwrando'n ofalus mewn sefyllfaoedd gwahanol ac ymateb yn briodol
- ystyried safbwyntiau pobl eraill wrth lunio barn, a gwneud penderfyniadau a dewisiadau ar sail gwybodaeth
- mynegi barn a chyfiawnhau safbwynt personol
- cymryd rhan mewn dadleuon a phleidleisio ar faterion
- adnabod ac asesu rhagfarn a dibynadwyedd, e.e. gwerthuso negeseuon yn y cyfryngau
- datblygu strategaethau ar gyfer datrys gwrthdaro.

Materion a allai fod yn sensitif

Er y gall unrhyw faes ABCh fod yn sensitif i unigolion arbennig, y materion sy'n debygol o fod yn ddadleuol yw'r rhai sy'n delio â gwerthoedd a chredoau moesol a moesegol, y rhai sy'n ysgogi teimladau cryf, a'r rhai sy'n cael effaith personol, gymdeithasol neu wleidyddol. Maen nhw'n faterion cymhleth fel arfer a bydd barn gryf gan bobl amdany'n nhw'n aml ac agweddau sydd wedi'u gwreiddio ar sail profiadau, diddordebau a gwerthoedd gwahanol. Gallai materion o'r fath gynnwys:

- bwlio
- gwerthoedd diwylliannol
- gwleidyddiaeth
- dewisiadau ffordd o fyw personol
- perthnasoedd, gan gynnwys materion megis iechyd rhywiol, camfanteisio'n rhywiol a phriodasau dan orfod
- rhywioldeb
- gwrthdaro, gan gynnwys materion megis cam-drin domestig
- ffordd o fyw a gwerthoedd teuluol
- iechyd a lles, e.e. gordewdra, anorecsia, hunan-niwed
- materion cyfreithiol, e.e. gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol
- materion ariannol, gan gynnwys materion megis dyled, tlodi
- diweithdra
- profedigaeth.

Cyflwyno materion sensitif

Bydd sesiynau ABCh sydd wedi'u cynllunio'n dda, o safon uchel yn helpu disgyblion i gael gwybodaeth ffeithiol gytbwys o amrywiaeth o ffynonellau, a'u galluogi i fod yn fwy ymwybodol o safbwyntiau eraill. Wrth gyflwyno materion sensitif mewn ABCh a gweithgareddau cysylltiedig ag ABCh, megis ACEDd, rhaid i athrawon:

- greu amgylchedd dysgu llawn parch lle y gall disgyblion fynegi safbwynt a all fod yn wahanol i safbwynt eu cyfoedion
- sicrhau bod disgyblion yn gallu cael mynediad i wybodaeth gytbwys a safbwyntiau gwahanol er mwyn eu galluogi i wneud eu barn eu hunain yn eglur; gall hyn gynnwys cyfraniadau gan ymwelwyr
- penderfynu i ba raddau y maen nhw'n barod i fynegi eu barn eu hunain, gan gofio bod rhaid iddyn nhw weithio o fewn fframwaith cytûn datganiad cenhadaeth/gwerthoedd yr ysgol
- osgoi atgyfnerthu stereoteipiau neu greu tensiwn rhwng disgyblion
- ystyried anghenion dysgwyr unigol wrth fynd i'r afael â materion hunaniaeth bersonol, gymdeithasol neu ddiwylliannol, er enghraifft, wrth weithio ar y cysyniad o golled a newid mewn perthnasoedd pan fydd disgybl wedi cael profedigaeth ddiweddar
- barnu pryd i ganiatáu i ddisgyblion drafod materion yn gyfrinachol mewn grwpiau a phryd i roi cymorth drwy wrando ar y trafodaethau grŵp hynny.

Sicrhau cyfrinachedd

Gall disgyblion ddatgelu pethau personol yn ystod sesiynau ABCh, naill ai yn y dosbarth neu i athrawon unigol. Er enghraifft, gallan nhw ddatgelu eu bod nhw, eu ffrindiau neu eu perthnasau yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Rhaid i ysgolion gael polisi cyfrinachedd sy'n amlinellu'n glir i athrawon eu rolau a'u cyfrifoldebau cyfreithiol a phroffesiynol.

Mae cyfarwyddyd penodol ar gyfrinachedd yng nghyd-destun addysg rhyw a pherthnasoedd i'w chael yn *Addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion – Cyfarwyddyd Mawrth 2010* (ar gael yn www.cymru.gov.uk/addysgagiliau yn yr adran 'Cwricwlwm ac Asesu' o dan 'Y cwricwlwm ysgol yng Nghymru' wedyn 'Addysg rhyw').

Dylai athrawon egluro nad oes unrhyw bwysau ar ddisgyblion i ddatgelu profiadau personol mewn gwersi ABCh a rhaid sicrhau eu bod yn gwybod na all athrawon gynnig cyfrinachedd diamod. Yn yr un modd, os yw disgybl yn dymuno trafod pryder personol pwysig, dylai athrawon sicrhau eu bod yn ymwybodol o ffynonellau cyfrinachol o gymorth, o fewn a'r tu allan i'r ysgol. Byddai hyn yn cynnwys annog disgyblion i siarad â'u rhieni/warcheidwaid.

Rhaid i athrawon sy'n gyfrifol am addysgu ABCh deimlo'n hyderus wrth:

- ymdrin â materion sensitif a all godi
- delio mewn modd sensitif â datgeliadau gan unigolion neu grŵp yn yr ystafell ddosbarth, a gweithredu ar hyn yn briodol
- gweithio o fewn canllawiau cyfrinachedd yr ysgol
- gwybod beth i'w wneud mewn achos posibl o ddiogelwch.

Mae cyfarwyddyd penodol ar ddiogelu plant mewn addysg i'w chael yng *Nghylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 05/2008 – Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002* (ar gael yn www.cymru.gov.uk/addysg/gasiliau yn yr adran 'Cyhoeddiadau' o dan 'Cylchlythrau').

Yr angen am gydbwysedd

Mae'n hollbwysig sicrhau cydbwysedd wrth drafod materion sensitif mewn ABCh. Gallai hyn olygu fod pob gwers ABCh unigol yn cynnig ymdriniaeth gytbwys o bwnc neu gallai olygu fod cydbwysedd yn cael ei ddarparu ar gyfer y maes cyfan. Yn yr un modd, gallai cydbwysedd olygu mai cyfrifoldeb yr athro/athrawes yw rhoi mwy o sylw i farn wrthwynebol os yw'r ymdriniaeth yn y cyfryngau neu bersbectif y dosbarth cyfan braidd yn unochrog neu gul.

Ni ddylai'r angen am gydbwysedd rwystro gwneud safiad clir yn erbyn gwahaniaethu. Mae gwerthoedd cyffredin a fframweithiau cyfreithiol yn mynnu bod rhai safbwyntiau a mathau o ymddygiad na ddylid eu goddef, er enghraifft, nid yw hiliaeth, bwlio (gan gynnwys bwlio homoffobig), trais a chreulondeb byth yn dderbyniol a dylid eu herio.

Gall athrawon osgoi rhagfarn mewn ABCh drwy:

- gynnwys disgyblion wrth sefydlu'r rheolau sylfaenol ar gyfer sesiynau ABCh er mwyn creu nawws yn yr ystafell ddosbarth lle y gellir trafod materion yn agored
- cynnig cyfleoedd i bob disgybl gyfrannu eu barn at drafodaethau grŵp neu ddosbarth
- helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng safbwyntiau a barnau ar werth a ffeithiau
- ceisio peidio â thynnu sylw at ffeithiau neu dystiolaeth arbennig mewn ffordd sy'n rhoi mwy o bwys iddyn nhw na gwybodaeth sydd yr un mor berthnasol
- rhoi'r un pwysigrwydd i safbwyntiau a barnau gwrthwynebol
- annog disgyblion i herio a chynnig dehongliadau eraill o wybodaeth
- herio consensws barn sy'n cael ei ffurfio'n rhy gyflym.

Osgoi egwyddori gwleidyddol

Yn ôl y gyfraith, ni chaniateir i athrawon hyrwyddo safbwyntiau pleidiau gwleidyddol wrth addysgu unrhyw bwnc yn yr ysgol. Mae Deddf Addysg 1996 yn amlinellu'r gofynion statudol sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion, penaethiaid ac awdurdodau lleol gymryd pob cam sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau, pan fydd materion gwleidyddol yn cael eu dwyn at sylw disgyblion, y cânt gyflwyniad cytbwys o safbwyntiau gwrthwynebol.

Addysgu materion cyfoes

Mae ABCh yn darparu cyfleoedd gwyh i ddisgyblion drafod materion a digwyddiadau cyfoes lleol a byd-eang, er enghraifft, gall disgyblion gael eu dylanwadu gan yr wybodaeth a'r delweddau maen nhw'n gweld yn y cyfryngau. Mae rhai ystyriaethau ymarferol yn codi wrth drafod materion cyfoes, er enghraifft:

- gorfod addasu cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi ar fyr rybudd
- amser cyfyngedig i godi ymwybyddiaeth staff o'r materion a datblygu adnoddau addysgu priodol
- efallai y bydd disgyblion yn teimlo mor gryf am bwnc fel eu bod yn dymuno gweithredu – mae'r thema 'Dinasyddiaeth weithgar' yn annog disgyblion i gymryd rhan mewn materion ysgol a chymunedol, ac mae angen canllawiau clir ar ysgolion ar y cymorth, os o gwbl, y gall y disgyblion ei ddisgwyl gan athrawon er mwyn lleisio eu barn.

Atodiad 3: Monitro a gwerthuso effaith

Efallai y bydd lleoliadau/ysgolion yn dymuno defnyddio offer meintiol ac ansoddol i werthuso effaith eu gwaith ar yr agweddau cymdeithasol ac emosiynol ar ddysgu. Mae rhai offer wedi'u hawgrymu isod.

Mesurau effaith	Offer
Newidiadau mewn ymddygiad a phresenoldeb disgyblion, a'r safonau maen nhw'n cyflawni yn eu dysgu	Lleihad yn nifer y: • 'digwyddiadau' ymddygiad yn ôl diffiniad y lleoliad/ysgol • disgyblion yn cael mwy nag un gwaharddiad cyfnod penodol • gwaharddiadau amser cinio • digwyddiadau bwlio • digwyddiadau hiliol Absenoldeb awdurdodedig, anawdurdodedig a chyfanswm absenoldeb Safonau a gyflawnwyd yn y pynciau craidd
Newidiadau ar lefel lleoliad/ysgol gyfan, ym marn disgyblion, rhieni/warcheidwaid a staff	Gallai lleoliadau ac ysgolion ddefnyddio Dull Asesu Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru sy'n ystyried iechyd emosiynol fel un agwedd ar ysgol iach. Mae ar gael gan Gydlynwyr Cynlluniau Ysgolion Iach Lleol. O fewn Dyfarniad Ansawdd Cenedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, mae Iechyd Meddwl ac Emosiynol a Lles yn cael ei ystyried yn un o'r saith pwnc iechyd. Mae'r cyhoeddiad perthnasol a'r cymorth ar gyfer ei ddefnyddio ar gael gan Gydlynwyr Cynlluniau Ysgolion Iach Lleol.
Disgyblion yn gwerthuso eu dysgu a'u meddwl eu hunain	Mae nifer o offer asesu hawdd eu defnyddio i athrawon a disgyblion wedi'u darparu fel atodiad i <i>Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth</i> (ar gael yn www.cymru.gov.uk/addysgagiliau yn yr adran 'Cwricwlwm ac Asesu' o dan 'Datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu: Rhaglen ddatblygu'). Mae pecynnau cymorth ymgynghori <i>Gwrando ar ddysgwyr</i> wedi'u llunio i'w defnyddio o fewn lleoliadau/ysgolion i adnabod profiadau a safbwyntiau disgyblion o ran agweddau allweddol ar eu profiadau cwricwlaidd (ar gael yn www.cymru.gov.uk/addysgagiliau yn yr adran 'Cwricwlwm ac Asesu' o dan 'Gwrando ar ddysgwyr').
Adolygu deilliannau a meini prawf llwyddiant	
Adolygu'r broses a ddefnyddiwyd	Mae'r cyhoeddiad <i>Pam datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth?</i> hefyd ar gael yn y cyfeiriad gwe uchod.

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn a chael mwy o wybodaeth yn:

www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Dylech ddyfynnu'r cyfeirnod hwn: **1378-2010-CYMRU**

© Hawlfraint y Goron 2010

Gellir atgynhyrchu darnau o'r ddogfen hon at ddibenion sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu ymchwil anfasnachol, cyhyd â bod y ffynhonnell yn cael ei chydnabod yn hawlfraint y Goron, bod teitl y cyhoeddiad yn cael ei nodi, bod y deunydd yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Nid yw'r caniatâd i atgynhyrchu deunydd a warchodir gan hawlfraint y Goron yn ymestyn i unrhyw ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn y nodir ei fod yn hawlfraint trydydd parti.

Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall, cysylltwch â
HMSOlicensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk
www.opsi.gov.uk/click-use/index.htm

Seiliwyd y deunyddiau hyn ar y deunyddiau *Primary: Social and emotional aspects of learning* a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Yr Adran Addysg a Sgiliau yn Lloegr. Addaswyd a chyfieithwyd y deunyddiau hyn i'w defnyddio yng Nghymru gan Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gyda chaniatâd yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn Lloegr.

Tîm Ennyn Diddordeb Disgyblion
APADGOS
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 1556
Ffacs: 029 2080 1044
e-bost: petshare@wales.gsi.gov.uk